

LDP-EBD-BP4
Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w
Archwilio gan y Cyhoedd
2015 - 2030

Papur Cefndir 4
Mwynau
Medi 2019

PAPUR CEFNDIR MWYNAU


1. Cyflwyniad	2
2. Cyd-destun Polisi – Cyd-destun Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbartho l a Lleol	4
3. Cynllun Datblygu Unedol	11
4. Strategaeth Ddewisol	13
5. Diogelu	14
6. Sicrhau Cyflenwad Cynaliadwy o Fwynau	20
7. Lleihau Effaith Cloddio	34
8. Safleoedd Anweithredol	36
9. Annog Defnyddio Deunyddiau Eraill	37
10. Awdurdodau Cyfagos	38
11. Monitro	38
Atodiadau	
Atodiad 1: Asesiad Mwynau Safleoedd Ymgeisydd Cyngor Sir y Fflint	35
Atodiad 2: Asesiad Mwynau o Ddyraniadau	87
Atodiad 3: Asesiad o Safleoedd Ymgeisydd Mwynau	89

1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas

- 1.1.1. Paratowyd y papur cefndir hwn i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Adneuo 2015-2030. Pwrpas y papur yw esbonio sut datblygwyd y dyraniadau gan ystyried yr adnoddau mwynol gwaelodol ar draws y Sir a sut datblygwyd y polisïau mwynau. Mae mwynau'n gydran bwysig o economi Sir y Fflint gyda nifer o safleoedd strategol bwysig yn y Sir. Mae mwynau'n hollbwysig i'r diwydiant adeiladu, ac felly mae eu cyflenwad parhaus yn hanfodol bwysig i gyflawni'r CDLI. Mae mwynau'n adnodd cyfyngedig y gellir ond eu gweithio lle maen nhw'n digwydd. Mae'r pwysau cynyddol am ddatblygiadau heb fod yn fwynol yn her benodol, yn enwedig mewn Siroedd fel Sir y Fflint lle mae aneddiadau wedi'u ffurfio yn sgil cloddio mwynau.
- 1.1.2. Ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu'r CDLI a'r dull o droi at fwynau fu hyd a lled mwynau o bwysigrwydd economaidd ar draws y Sir. O dan ardaloedd adeiledig Sir y Fflint, mae nifer o wahanol fwynau o bwysigrwydd economaidd, gan gynnwys tywod a graean, glo (sylfaen neu eilradd) a chalchfaen, gan gynnwys calchfaen o burdeb uchel. Dengys Ffigur 1 ddsbarthiad y mwynau ar draws y Sir.
- 1.1.3. Yn hanesyddol, mae ystod o fwynau wedi'u gweithio yn Sir y Fflint, gan gynnwys mwynau metelaidd, glo, calchfaen, clai, tywod a graean, silica a thywodfaen. Ceir nifer o chwareli gweithredol yn y Sir sy'n parhau i gynhyrchu calchfaen a thywod a graean. Cynhyrchir calchfaen mewn nifer o safleoedd am agregau, ac at ddefnyddiau diwydiannol yng Nghefn Mawr. Caiff tywod a graean eu cynhyrchu o hyd ym Maes Mynan ond ceir cronfeydd a ganiateir yn Fron Haul a Ddol Uchaf. Mae'r cynhyrchiant tywod a graean yn Sir y Fflint dipyn yn llai o gymharu â Wrecsam sydd â chronfeydd sylweddol o hyd yn Chwarel Borrás. Yn hanesyddol, mae glo a phlwm wedi'u gweithio yn y Sir ac wedi gadael etifeddiaeth y mae'n rhaid ei hystyried wrth ddatblygu ar safleoedd gwaith blaenorol neu'n agos atynt.
- 1.1.4. Yn ogystal â chwarelu mwy traddodiadol, bu'r Sir yn destun diddordeb mewn perthynas â chloddio am nwy anghonfensiynol. O dan y Sir mae haenau glo sy'n gallu cynhyrchu nwy methan a allai gael ei ddefnyddio (Methan Gwely Glo). Rhoddwyd caniatâd i geisiadau am dyllau turio archwiliadol yn yr awdurdod a cheir blociau trwyddedau yn y Sir.
- 1.1.5. Mae'r papur hwn yn tynnu oddi ar y wybodaeth gefndir ganlynol:
- Adolygiad 1^{af} Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru (2014);
 - Mapiau Adnoddau Mwynol (2010) Arolwg Daearegol Prydain;
 - Mapiau Diogelu Agregau (2012) Arolwg Daearegol Prydain;
 - Map gweithgarwch olew a nwy ar y tir a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Olew a Nwy;
 - Caniatadau Cynllunio;
 - Arolwg Blynnyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2016
 - Arolygon 2001-2014 Annual Minerals Raised Inquiries (AMRI)
 - Digest of UK Energy Statistics: Solid Fuels and Derived Gases (2017)

Ffigur 1: Map o Adnoddau Mwynol Sir y Fflint



2. CYD-DESTUN POLISI

2.1. Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018)

- 2.1.1. Mae'r Polisi Cenedlaethol yn gosod nifer o egwyddorion pwysig mewn perthynas â mwynau y dylid mynd i'r afael â nhw trwy'r CDLI:
- Sicrhau cyflenwad cynaliadwy;
 - Diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
 - Lleihau gwrthdaro rhwng datblygiadau mwynol a heb fod yn fwynol;
 - Sicrhau adferiad addas;
 - Annog defnyddio dewisiadau eraill i adnoddau elfennol.

2.2. Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau

- 2.2.1. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau yn rhoi cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at gyflenwad cynaliadwy'r agregau ac yn gosod cyngor manwl ar agregau, fel calchfaen, tywod a graean. Mae Paragraff 49 yn gofyn am gynnal banc tir o 10 mlynedd o leiaf o graig wedi'i malu ac o leiaf 7 mlynedd o fanc tir o dywod a graean ar hyd cyfnod yr CDLI. Lle mae modd i fanc tir ddarparu dros 20 mlynedd o gloddio, ni fydd angen dyraniadau newydd ac ni ddylid caniatáu cynigion am ragor o gloddio heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Llythyr Egluro Polisi CL-05-14, sydd yn ei hanfod yn cynghori, o gofio hyd yr CDLlau, y byddai'n ddarvoudus dod i'r casgliad hwn dim ond petai banc tir o 25 mlynedd neu'n fwy ar waith. Mae'r Llythyr hefyd yn cynghori methodoleg ddiwygiedig, gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant o 10 mlynedd yn hytrach na 3, er mwyn cyfrifo bod y banc tir yn briodol o gofio'r dirwasgiad economaidd. Defnyddiwyd y fethodoleg hon i ddynodi lefel yr angen yn y Datganiadau Technegol Rhanbarthol a drafodir ym mharagraff 2.5.1 isod.
- 2.2.2. Er mwyn lleihau effaith cynhyrchiant agregau, mae angen i awdurdodau lleol glustnodi parthau clustogi o gwmpas safleoedd cloddio mwynau a ganiateir ac a ddyrennir (yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru). Mae MTAN 1 yn dynodi'r isafswm pellter y dylid ei gynnal ar gyfer tywod a graean (100m) a chwareli craig galed (200m).

2.3. Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo

- 2.3.1. O dan Sir y Fflint mae Maes Glo Sir y Fflint ac yn hanesyddol, mae wedi'i weithio'n ddwfn ac ar yr wyneb. Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 2: Glo yn rhoi cyngor ar sut dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at y cyflenwad cynaliadwy o lo ac mae'n gofyn i awdurdodau lleol gyfeirio gwaith glo i ffwrdd o leoliadau sensitif a dynodi'r ardaloedd lle na ddylid gweithio glo. Mae'n datgan y dylid dangos parthau clustogi o 500m o gwmpas safleoedd gweithio glo presennol ac arfaethedig ac ardaloedd i'w diogelu ar y mapiau cynigion oni fod amgylchiadau eithriadol fel y gosodir yn yr MTAN. Mae'r MTAN yn nodi lle byddai gwaith glo'n dinistrio neu'n diraddio tirweddau aeddfed, coetiroedd hynafol, gwrychoedd pwysig neu goed diamddiffyn, dylid eu caniatáu dim ond os ydy'r buddiannau

adennill yn gorbwysu'r niwed amlwg o weithio safle. Nid oes rhagolwg o angen na banc tir o gronfeydd a ganiateir ar gyfer glo, fel sydd ar gyfer agregau.

- 2.3.2. Ar 26 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr¹ mewn perthynas â datgarboneiddio'n system ynni a bwriad i ymgynghori ynghylch a ddylai polisi cenedlaethol bellach fod yn gefnogol o rai mathau o gloddio am danwydd ffosil, gan gynnwys glo.
- 2.3.3. Mae PPW10 yn ailddatgan y dull hwn, ac yn benodol, yn tynnu ymaith yr angen i ddiogelu adnoddau glo. Mae PPW10 yn datgan y gallai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddymuno diogelu glo crai, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol². Gan nad oes amgylchiadau penodol yn Sir y Fflint i warantu diogelu adnoddau glo, nid yw Ardaloedd Diogelu Mwynau bellach yn diogelu adnoddau glo ac nid yw'r mapiau cynigion yn cynnwys Ardal Diogelu Mwynau glo. At hynny, ni fyddai gofyniad ym Mholisi EN23 i safleoedd lle mae glo oddi tanynt ddarparu asesiad cloddio o flaen llaw.
- 2.3.4. Mae PPW10 yn datgan na ddylid caniatáu cynigion am ddatblygiad mwynglawdd agored, dwfn neu gyfleuster gwaredu ysbail glofa ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol dros ben lle byddai angen i'r cynigion ddangos angen yn glir, yng nghydestun targedau gostwng newid hinsawdd ac am resymau diogelu ynni cenedlaethol.³ Petai cais yn cael ei gyflwyno, ystyrir bod digon o ddiogelwch yn yr CDLI gyda'r darpariaethau a wnaed ym Mholisiau PC2, EN26 a pholisiau EN eraill, a hefyd PPW10 i ddiogelu'r amgylchedd a'r amwynder.

2.4. Olew a Nwy ar y Tir

- 2.4.1. Cafwyd diddordeb yn y Sir mewn cloddio Methan Gwely Glo a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer tyllau turio archwiliadol yn y Sir. Yn ogystal â chaniatâd cynllunio, rhaid cael trwydded ar gyfer y safle. Mae dau floc trwydded yn Sir y Fflint: PEDL 184 a PEDL 147, gweler Ffigur 2 isod. Ni chyhoeddwyd blociau trwyddedau pellach yn ystod y 14eg Rownd Trwyddedu Tua'r Tir. O fis Hydref 2018 ymlaen, trosglwyddwyd swyddogaethau trwyddedu o'r Awdurdod Olew a Nwy i Weinidogion Cymru. Mae'r sefyllfa polisi ddiwygiedig a osodwyd yn PPW10, mewn perthynas â pharhau i gloddio am danwydd ffosil yn ei gwneud hi'n amlwg y dylid osgoi cloddio am olew a nwy anghonfensiynol⁴, gyda mesurau galw i mewn os bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cymeradwyo⁵. Fodd bynnag, er bod PPW10 yn gryf yn erbyn datblygu ynni mwynol, nid yw'n atal y posibilrwydd o greu achos eithriadol, ac nid oes dim i atal rhag cyflwyno cais cynllunio. Os bydd cais yn cael ei gyflwyno, ystyrir bod digon o ddiogelwch yn yr CDLI gyda'r

¹ Cyfeirnod MA-P-LG-369117

² PPW10 (paragraff 5.10.17): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

³ PPW10 (paragraff 5.10.14): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

⁴ PPW10 (paragraff 5.10.11): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

⁵ PPW10 (paragraff 5.10.11): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

darpariaethau a wnaed ym Mholisiau PC2, EN26 a pholisiau EN eraill, a hefyd PPW10 i amddiffyn yr amgylchedd a'r amwynder.

2.5. Cyd-destun Rhanbarthol

- 2.5.1. Mae Gweithgor Agregau Gogledd Cymru'n cynhyrchu Datganiadau Technegol sy'n dynodi pa lefel o ddarpariaeth agregau y mae angen eu gwneud ym mhob ardal awdurdod lleol. Cyhoeddwyd y Datganiad diwethaf yn 2014 ac mae'n gosod yr angen i Sir y Fflint wneud darpariaeth ychwanegol o 3.84 miliwn tunnell o graig galed ar y cyd â Wrecsam. Dynodir bod angen 1.4 miliwn o ddyraniadau ar gyfer tywod a graean. Dynodir hefyd bod angen dyraniadau mewn mannau eraill yn y rhanbarth a'r isranbarth, gan gynnwys Sir Ddinbych. Bydd methu â bodloni'r diffyg hwn mewn awdurdodau eraill yn rhoi pwysau cynyddol ar safleoedd presennol a allai gynyddu cyfradd defnyddio'r cronfeydd a ganiateir ac o ganlyniad, cynyddu'r angen yn Sir y Fflint. Hyd yma, ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn Sir Ddinbych ond mae hwn yn fater y byddai angen i Sir Ddinbych ddelio ag ef fel rhan o'r adolygiad o'i CDLI. Disgwylir cyhoeddi adolygiad pellach o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn 2020 a bydd angen ei ystyried trwy'r broses CDLI ac unrhyw adolygiadau o'r CDLI.

2.6. Cyd-destun Lleol

- 2.6.1. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn esbonio i ble mae'r twf yn cael ei gyfeirio a pham. Mae mwynau'n un ystyriaeth ochr yn ochr â nifer fawr o rai eraill y bu'n rhaid i'r CDLI eu cydbwysu wrth benderfynu ar leoliad y twf. Caiff twf ei grynodi yn y prif ganolfannau gwasanaeth: Treffynnon, Y Fflint, Shotton, Cei Connah, Queensferry, Saltney, Yr Wyddgrug a Bwcle gyda chanolfannau gwasanaeth lleol yn darparu lefelau darpariaeth gymedrol, twf mwy cyfyngedig mewn pentrefi cynaliadwy a mewnlenni a thau fforddiadwy i anghenion lleol mewn pentrefi heb eu diffinio.
- 2.6.2. Mae gan Sir y Fflint hanes hir o weithio mwynau sy'n mynd yn ôl cannoedd o flynyddoedd. Mae nifer fawr o orchmynion gwahardd wedi'u cyflwyno yn y Sir sydd wedi cael gwared ar hen ganiatadau mwynau ac sydd bellach wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru, yn ôl y manylion yn Nhabl 1. Ceir nifer o safleoedd anweithredol neu segur⁶ yn y Sir sydd, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, yn destun strategaeth addas a, lle bo angen, polisiau i esbonio cynigion ar gyfer y tir i'r dyfodol. Mae Tabl 2 yn darparu trosolwg o safleoedd presennol a safleoedd sydd wedi stopio gweithio yn ystod oes yr CDU.

Tabl 1: Rhestr o Safleoedd Gwahardd

⁶ Diffinnir Safle Segur gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel safle Cam I neu Gam II mewn, ar neu o dan lle na chynhaliwyd unrhyw ddatblygiad mwynau i unrhyw raddau sylweddol unrhyw bryd yn y cyfnod yn dechrau ar 22 Chwefror 1982 ac yn dod i ben ar 6 Mehefin 1995 heblaw yn rhinwedd caniatâd cynllunio nad yw'n ganiatâd cynllunio perthnasol yn ymwneud â'r safle.

Safle	Lleoliad	Safle	Lleoliad
Coed Issa	Llanfynydd	Crowndale	Llanfynydd
Bryn Farm	Ffrith	Bryn Yorkin	Caergwrle
Victoria	Gronant	Mynydd Du	Treuddyn
Garreg Boet	Hendre	Park	Afonwen
Pen y Fron	Gwernaffield	Olwyn Goch	Hendre
Pen y Gelli	Lloc	Afonwen	Afonwen
Plas Winter	Halkyn	Cefn Ucha	Cilcain
Cae Rhug	Gwernaffield	Bryn Gwyn	Gwernymynydd
Hendre Spar	Cilcain	Cae Rheinall	Llanfynydd

Tabl 2: Safleoedd Mwynol yn Sir y Fflint


Enw'r Safle	Math o Fwyn	Gweithredwr	Statws	Dyddiad Diwedd Cloddio Mwynau	Sylwadau
Calchfaen					
Aberdo/Bryn Mawr	Calchfaen/ Cornfaen	CCP Building Products Ltd	Gweithredol	Chwefror 2042	Mae'r safle newydd gael perchennog newydd. Mae'n cael ei weithio ar hyn o bryd i gynhyrchu calchfaen a chornfaen.
Cefn Mawr	Calchfaen	Hanson	Gweithredol	Chwefror 2042	Mae'r safle'n cael ei weithio i gynhyrchu calchfaen i'w ddefnyddio mewn olyn sment yn Paedwood. Caiff deunydd o ansawdd mwy gwael ei weithio hefyd i gynhyrchu agreg.
Grange	Calchfaen		Segur	Chwefror 2042	Nid yw'r safle wedi'i weithio ers y 1970au. Nid yw'r perchennog wedi dangos unrhyw fwriad i weithio'r safle.
Hendre	Calchfaen	Tarmac	Gweithredol	Rhagfyr 2020	Mae'r safle'n gynhyrchwr calchfaen arwyddocaol
Pant y Pwll Dŵr	Calchfaen	Cemex	Gweithredol	Chwefror 2042	Mae'r safle'n gynhyrchwr calchfaen arwyddocaol
Pant	Calchfaen	Tarmac	Gweithredol	Ebrill 2025	Nid yw'r mwyn wedi'i gloddio yn y safle ers nifer o flynyddoedd. Datganwyd materion sefydlogrwydd.
Pen yr Henblas, Pen-y-Garreg a Bryn Blewog	Calchfaen	Grosvenor Estate	Anweithredol	Chwefror 2042	Nid yw'r safle(oedd) wedi gweithio ers 1996.
Trimm Rock	Calchfaen	Hanson	Mewn ôl-ofal estynedig a sicrhawyd gan	Awst 2012	Mae cloddio mwynau yn y safle bellach wedi dod i ben a gwaith adfer ac ôl-ofal sylweddol wedi'i gwblhau (Awst 2019). Mae'r safle bellach mewn ôl-ofal estynedig a orfodwyd gan gytundeb cyfreithiol adran 106 ar gyfer

			gytundeb adran 106		plannu coed (tan fis Awst 2024) a rheoli Coetir Coed Ddu gerllaw (tan fis Awst 2021)
Clai/Siâl					
Liverpool Road/Catheralls	Clai/Siâl	Hanson	Segur	Chwefror 2042	Mae'r safle'n anweithredol ac yn destun Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) segur sy'n gysylltiedig â Chwarel Parry. Rhoddwyd y safle gerbron i'w gynnwys yn yr CDLI ar gyfer tai.
Chwarel Parry	Clai/Siâl	Mold Investments Ltd	Caniatâd mewnlenwi cyfredol	Ionawr 2034	Mae'r safle'n destun ROMP segur sy'n gysylltiedig â Liverpool Road/Catheralls.
Pinfold Lane	Clai/Siâl	Brock Plc	Anweithredol	Chwefror 2042	Ni chydymffurfiodd y gweithredwr gyda chais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chais ROMP ac ystyrir ei fod bellach wedi darfod.
Stoney Beach	Clai/Siâl	Brock Plc	Anweithredol	Chwefror 2042	Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster gwastraff yn y chwarel sy'n destun Adran 106 sy'n atal cloddio am fwynau.
Ruby	Siâl	DP Williams	Segur	31 Rhagfyr 2021 Collwyd adolygiad cyfnodol	Nid yw'r safle wedi'i weithio ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi aildyfu'n naturiol.
Tywod a Graean					
Ddol Uchaf	Tywod a Graean	Breedon	Segur	Chwefror 2042	Nid yw'r safle wedi'i weithio ers nifer o flynyddoedd, ond mae'r perchnogion wedi dynodi bwriad i ailgychwyn yn y dyfodol ac mae'r safle'n destun dyraniad yn yr CDLI.
Fron Haul	Tywod a Graean	Breedon	Gweithredol	21 Chwefror 2042	Caiff tywod a gloddiwyd ym Maes Mynan ei brosesu yn Fron Haul. Mae cronfeydd yn weddill yn y safle a fydd yn cael eu gweithio ar ôl i Faes Mynan gael ei gwblhau.

Sandy Lane Farm, Kinnerton	Tywod a Graean	T Cannon and Sons	Gweithredol	Rhagfyr 2022	Mae'r safle wrthi'n cynhyrchu tywod ond yn gweithredu'n ad hoc ac yn debygol o ofyn am estyniad amser pellach.
Maes Mynan	Tywod a Graean	Breedon	Gweithredol	Mai 2023	Mae'r safle wrthi'n cynhyrchu tywod concritio.

Ffigur 2:

Onshore PEDL Licences in North Wales



3. Cynllun Datblygu Unedol

3.1. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) yn cynnwys nifer o bolisiau'n ymwneud â mwynau. Mae'r polisiau hyn wedi'u hadolygu a thrafodir eu perthnasedd ar gyfer yr CDLI yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Ystyried polisiau'r CDU ar gyfer yr CDLI

Polisi	Sylw	Argymhelliad ar gyfer yr CDLI
MIN 1 Arwain Datblygiad Mwynau	Mae'n cadarnhau ffafriaeth i ddefnyddio agregau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu a ffafriaeth i ddyfnhau neu wneud estyniad ochrol o waith presennol.	Ers mabwysiadu'r CDU, mae'r angen am craig wedi'i malu a thywod a graean yn y Sir wedi'i dynodi. Felly, bydd angen gwneud dyraniadau penodol yn yr CDLI ar gyfer craig wedi'i malu a thywod a graean.
MIN 2 Datblygu Mwynau	Yn darparu rhywfaint o bolisi seiliedig ar feini prawf gofodol y byddai cais am gloddio'n cael ei ystyried yn ei erbyn.	Fel uchod, bydd angen gwneud dyraniadau ar gyfer cloddio craig wedi'i malu a thywod a graean. Bydd angen meini prawf o hyd y gellir asesu cynigion yn eu herbyn, os bydd cais yn dod gerbron y tu allan i safle dynodedig.

MIN3 Gweithrediadau Rheoli Mwynau	Yn darparu meini prawf ychwanegol y byddai cloddio mwynau'n cael ei ystyried yn eu herbyn.	Bydd angen meini prawf o hyd y bydd cynigion ar gyfer cloddio mwynau'n cael eu hasesu yn eu herbyn.
MIN4 Adfer ac Ôl-ofal	Yn sicrhau adferiad ac ôl-ofal mewn datblygiad mwynau. Nid yw'n pennu beth y gallai ôl-ofal priodol fod.	Bydd angen sicrhau adferiad o hyd, ond nid oes angen i hyn fod yn bolisi ar ei ben ei hun a dylai ddynodi ôl-ddefnyddiau addas ar gyfer y safleoedd.
MIN5 Safleoedd Segur, Anweithredol a Gorchymyn Datblygu Dros Dro	Yn cadarnhau bwriad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau bod y safleoedd hynny'n bodloni safonau cynllunio modern yn eu gweithriad a'u hadferiad.	Mae PPW yn gofyn bod CDLlau yn nodi strategaeth ar gyfer safleoedd sy'n segur neu'n annhebygol o gael eu gweithio eto. Byddai'r polisi ond yn angenrheidiol le mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio sicrhau defnydd diwedd penodol ar gyfer safle. Oni mai dyma'r achos, ystyriwch gadarnhau'r bwriad i gyhoeddi bod gorchmynion gwahardd yn ddigonol.
MIN6 Adolygu Caniatadau Mwynol	Yn cadarnhau'r bwriad i gyhoeddi gorchmynion gwahardd.	Fel uchod. Ceir rhywfaint o ddyblygu rhwng y ddau bolisi.
MIN7 Archwilio am Fwynau	Yn cadarnhau cefnogaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer datblygiad archwiliadol.	Ystyriwch fod y polisi hwn yn ddiangen. Lle nad yw archwilio mwynol yn ddatblygiad a ganiateir a bod angen caniatâd cynllunio arno, gellir ei ystyried yn erbyn polisi mwynol cyffredinol a pholisïau eraill yr CDLI.
MIN8 Diogelu Buddiannau Mwynol	Yn diogelu craig wedi'i malu a thywod a graean.	Ers mabwysiadu'r CDU, mae'r BGS wedi cyhoeddi Map Diogelu Agregau Cymru a fydd yn cael ei adolygu a'r dull diogelu'n cael ei ddiwygio'n unol â hynny.
MIN9 Pyllau Benthyc	Mae'r polisi'n cadarnhau cefnogaeth i byllau benthyc lle mae budd amgylcheddol amlwg.	Mae'r polisi hwn yn ailadrodd polisi cenedlaethol.
MIN10 Parthau Clustogi Mwynol	Mae'r polisi'n berthnasol i glustogau o gwmpas safleoedd mwynol yn unol ag MTAN 1.	Bydd angen i'r parthau clustogi gael eu diwygio yng ngoleuni cau ac adferiad dilynol nifer o chwareli.

4. Strategaeth Ddewisol

- 4.1.1. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn gosod y polisi strategol ar gyfer mwynau ym Mholisi Strategol STR16. Mae'r Polisi'n gosod y bwriad i ddiogelu mwynau rhag sterileiddio diangen; lleihau gwrthdaro trwy ddefnyddio parthau clustogi; cyfrannu tuag at gyflenwad rhanbarthol ar y cyd â Wrecsam; nodi'r ardaloedd hynny lle na fyddai cloddio mwynau'n dderbyniol; lleihau effaith cloddio mwynau ar gymunedau a'r amgylchedd; sicrhau adferiad priodol a mwyhau'r defnydd o agregau eilaidd ac wedi'u hailgylchu.

Ffigur 3: Polisi Mwynau Strategol

STR16: Cynllunio Strategol ar gyfer Mwynau	
Bydd adnoddau mwynol pwysig Sir y Fflint yn cael eu rheoli'n gynaliadwy trwy:	
i.	Ddiogelu mwynau rhag sterileiddio diangen trwy gyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o ardaloedd lle mae mwynau o bwysigrwydd economaidd oddi tanynt neu, lle nad yw hyn yn bosibl, trwy ofyn am gloddio o flaen llaw;
ii.	Lleihau'r gwrthdaro rhwng datblygu mwynau a datblygu sensitif trwy ddefnyddio parthau clustogi;
iii.	Cyfrannu tuag at gyflenwad rhanbarthol mwynau trwy ddyrannu 1.4 miliwn tonnell fetrig o dywod a graean a 3.84 miliwn tonnell fetrig o graig wedi'i malu trwy ymestyn y chwareli presennol, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
iv.	Sicrhau y caiff cloddio mwynau newydd eu lleoli er mwyn lleihau'r effeithiau ar gymunedau a'r amgylchedd;
v.	Sicrhau adferiad priodol a all gyflawni buddiannau amgylcheddol a chymunedol penodol;
vi.	Mwyhau'r defnydd o agregau eilaidd ac wedi'u hailgylchu.

- 4.1.2. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddewisol, gwnaed nifer o sylwadau gan yr ymgynghoreion mewn perthynas â'r dull o droi at fwynau. At ei gilydd, roedd y sylwadau a godwyd yn ymwneud â'r ffaith fod y polisi'n strategol ac nid ystyriwyd ei fod yn ddigon manwl. I'w nodi'n benodol, fodd bynnag, oedd y ffaith na chafwyd unrhyw wrthwynebiad mewn perthynas â'r dull cydweithredol a gynigiwyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam mewn perthynas â chraig wedi'i malu. Amlygwyd yr angen i ddyrannu safleoedd, fel ag y gwnaed â'r risgiau wrth ddibynnu ar nifer fach o safleoedd i fodloni anghenion dynodedig.
- 4.1.3. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd Wrecsam wedi bod trwy ei gam Ymgynghoriad Adneuo. Mae'r ddogfen Adneuo hefyd yn cynnig cyfrannu tuag at gyflenwad rhanbarthol mwynau trwy gydweithredu â Sir y Fflint. Cafodd y dull hwn ei gytuno hefyd yng Ngrwpiau Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol priodol cyn ymgynghori a lluniwyd Datganiad Tir Cyffredin i gefnogi Astudiaeth Gyhoeddus o CDLI Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Ffigur 4: Polisi Mwynau Strategol Wrecsam**Policy SP17: Minerals Supply and Safeguarding**

Minerals will be sustainably managed through:

- a. The protection of minerals from unnecessary sterilisation by directing new development away from areas underlain by mineral of importance or where this is not possible, through the requirement to extract mineral prior to the non-mineral development; and
- b. Avoiding conflict between mineral working and sensitive development through the use of buffer zones; and
- c. Contributing towards meeting the regional need for aggregate minerals in collaboration with Flintshire County Council; and
- d. Supporting proposals for mineral extraction within the County Borough which contribute towards maintaining an adequate supply of minerals in sustainable locations including the delivery of high quality restoration and aftercare programmes which enhance and provide linkages with the natural environment.

Polisi SP17: Cyflenwi a Diogelu Mwynau

Bydd mwynau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy trwy:

- a. Ddiogelu mwynau rhag sterileiddio diangen trwy gyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o ardaloedd lle mae mwynau o bwysigrwydd oddi tanynt neu, lle nad yw hyn yn bosibl, trwy ofyn am gloddio mwynau cyn datblygu heb fod yn fwynol; ac
- b. Osgoi gwrthdaro rhwng gweithio mwynau a datblygu sensitif trwy ddefnyddio parthau clustogi;
- c. Cyfrannu tuag at fodloni'r angen rhanbarthol am fwynau agregau ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint; a
- d. Chefnogi cynigion i gloddio mwynau yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cyfrannu tuag at gynnal cyflenwad digonol o fwynau mewn mannau cynaliadwy gan gynnwys cyflwyno rhaglenni adfer ac ôl-ofal ansawdd uchel sy'n gwella ac yn darparu cysylltiadau â'r amgylchedd naturiol.

5. Diogelu**5.1. Cyflwyniad**

- 5.1.1. Mae PPW10, paragraff 5.14.7 yn gosod y gofyniad i'r Cynlluniau Datblygu Lleol ddiogelu mwynau trwy ddiogelu adnoddau mwynol rhag mathau eraill o ddatblygu a fyddai naill ai'n eu sterileiddio neu'n rhwystro cloddio mwynol. Rhoddwyd ystyriaeth yn bennaf i fwynau sy'n cael eu gweithio ar yr wyneb gan y byddai'r rhain yn cael eu heffeithio mwyaf gan ddatblygiadau heb fod yn fwynol. Felly, nid yw mwynau sydd wedi'u gweithio'n ddwfn, fel ambell i lo ac olew a nwy anghonfensiynol, wedi'u hystyried ymhellach fel rhan o'r broses ddiogelu. Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn cynnwys mapiau adnoddau mwynau Arolwg Daearegol Prydain (BGS) sy'n dangos, ar lefel strategol, y dosbarthiad mwynau ar draws y Sir a Map Diogelu Agregau BGS. Mae'r Awdurdod Glo yn cyhoeddi mapiau sy'n dangos bod ardaloedd mewn perygl o gloddio blaenorol wedi'u defnyddio hefyd. Manteisiwyd ar Faes Glo Sir y Fflint am ganrifoedd a gadawodd etifeddiaeth y mae angen ei hystyried hefyd yn ystod y datblygiad. Ceir etifeddiaeth o gloddio plwm a ffynhonnau durol tanddaearol mewn ardaloedd mawr o'r Sir y mae calchfaen carbonifferaidd oddi tanynt.
- 5.1.2. Ceir dwy agwedd i ddiogelu:
 - i. Gwerthuso a dull polisi o droi at safleoedd a fyddai'n cael eu dynodi trwy'r CDLI; a
 - ii. Nodi ardaloedd a fyddai'n cael eu diogelu trwy'r CDLI.

5.2. Asesu Dyranïadau'r holl ddatblygiadau yn yr CDLI:

- 5.2.1. Cynhaliwyd adolygiad o'r holl safleoedd ymgeisiol i gadarnhau:
- Ydy safle gyda mwynau oddi tano o bwysigrwydd economaidd;
 - A fyddai datblygiad safle'n effeithio ar adnodd gerllaw'r safle;
 - Beth fyddai hyd a lled unrhyw effaith sterileiddio; ac
 - Ydy cloddio o flaen llaw yn debygol o fod yn ymarferol.
- 5.2.2. Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o safleoedd ymgeisiol yn 2015 (gweler Atodiad 1) a ddynododd bod mwynau arwyneb o bwysigrwydd economaidd o dan fwyafrif y safleoedd a roddwyd gerbron. Defnyddiwyd system goleuadau traffig i grwpio safleoedd yn eang i:
- i. Ddim un mwyn o bwysigrwydd economaidd, lle nad yw mwynau'n berthnasol (gwyn).
 - ii. Ni fyddai datblygiad y safle'n cyfaddawdu amcanion diogelu cenedlaethol oherwydd, er enghraifft, bod y safle naill ai eisoes wedi'i sterileiddio yn rhinwedd datblygiadau sensitif presennol neu fod y mwyn o lai o bwysigrwydd strategol (gwyrd).
 - iii. Gallai datblygiad y safle gyfaddawdu amcanion diogelu cenedlaethol. Dylid ystyried yn ofalus yr angen i ddatblygu yn erbyn yr angen i ddiogelu'r adnodd (oren).
 - iv. Bydd datblygiad y safle'n arwain at golli mwyn pwysig. Dylid ond ystyried datblygiad y safle hwn lle gellir cyfiawnhau datblygiad y safle yn llawn neu dylid dangos nad oes mwyn o bwysigrwydd economaidd trwy ymchwiliad safle (coch).
- 5.2.3. Yn ystod yr hidlad cyntaf o safleoedd (Atodiad 1), nodwyd bod gan ryw 68% o'r safleoedd a roddwyd gerbron fwynau o bwysigrwydd economaidd oddi tanynt. O'r rhain, cafodd rhyw 4% eu grwpio'n safleoedd coch. Mae mwyafrif helaeth y safleoedd hynny sydd â mwynau oddi tanynt eisoes wedi'u sterileiddio i raddau amrywiol gan ddatblygiadau heb fod yn fwynol a glo fyddai'r mwyn yr effeithir mwyaf arno, gan gynnwys glo crai. Cynhaliwyd yr asesiad cyn cyhoeddi PPW10 nad yw bellach yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddiogelu glo.⁷
- 5.2.4. Mae'r holl safleoedd a roddwyd gerbron i'w cynnwys yn yr CDLI, naill ar y Cam Safleoedd Ymgeisiol neu'r Cam Safleoedd Amgen wedi'u hasesu, nid dim ond mewn perthynas â mwynau ond yn erbyn amrywiaeth o ystyriaethau materol eraill. Aseswyd y safleoedd yr ystyriwyd eu bod yn addas i'w dyrannu yn y cynllun adneuo yn fanylach ac maen nhw wedi helpu llywio'r polisi diogelu ei hun. Strategaeth gyffredinol yr CDLI fu dyrannu safleoedd mewn neu'n agos at aneddiadau sy'n bodoli. Mae hyn yn helpu lleihau colli mwynau trwy ddatblygiad procsimol ond hefyd yn gostwng y cyfleoedd am gloddio o flaen llaw oherwydd yr angen i gadw pellteroedd addas rhwng datblygiadau sensitif presennol ac

⁷ PPW10 (paragraff 5.10.17): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

ardaloedd cloddio a hefyd yr angen i sicrhau plattform datblygu addas yn dilyn unrhyw gloddio o flaen llaw. Mae'r dull hwn yn gyson hefyd â'r dilyniant chwilio ar gyfer clustnodi safleoedd a ddynodwyd mewn polisi cynllunio cenedlaethol⁸.

- 5.2.5. At ei gilydd, nid ystyriwyd bod cloddio o flaen llaw yn briodol ar safleoedd sy'n llai na 4ha, gweler Atodiad 2 (Adolygu dyraniadau), gan ystyried dosbarthiad y mwyn dan sylw a lleoliad y datblygiad sensitif. Mae mwyafrif y safleoedd llai o faint sydd â mwynau oddi tanynt eisoes wedi'u sterileiddio gan ddatblygiad procsimol a byddai cyfyngiad ar unrhyw sterileiddio pellach. Lle mae glo crai o dan safleoedd a'u bod mewn ardaloedd y dynodwyd eu bod mewn risg uchel o hen weithgareddau mwyngloddio glo, ystyrir mai'r prif amcan ddylai fod i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sefydlogrwydd yn hytrach na chloddio o flaen llaw, ond gallai sefydlogrwydd gael ei sicrhau trwy gloddio o flaen llaw. Gan fod PPW10 yn datgan nad oes angen diogelu glo bellach, nid yw Polisi EN23 yn gofyn am gyflwyno asesiad cloddio o flaen llaw ar gyfer safleoedd gyda glo oddi tanynt. Byddai'r gofyniad i ddatblygwyr fynd i'r afael â'r risgiau sy'n codi o hen fwyngloddio glo ym Mholisi DM1 yn sicrhau cloddio o flaen llaw ar safleoedd gyda glo oddi tanynt lle bo hynny'n ffordd briodol o adfer.
- 5.2.6. Cynhaliwyd asesiad i fesur pa arwynebedd o dir cymharol ddigyfyngiad sydd â mwynau agregau Categori 1 yn weddill oddi tanynt yn y Sir. Mae hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth o ran pa effaith y mae'r CDLI yn debygol o gael o ran colli mwynau'n uniongyrchol o ganlyniad i sterileiddio. Er bod dyddodion sylweddol o fwynau pwysig o dan dir Sir y Fflint, mae ardaloedd mawr eisoes wedi'u sterileiddio gan ddatblygiadau heb fod yn fwynol neu ni fyddent yn addas i'w cloddio oherwydd cyfyngiadau fel AHNE, dynodiadau ecolegol ac yn y blaen. Mae'r ardaloedd cymharol ddigyfyngiad yn cynnwys y tir y tu allan i ffiniau'r aneddiadau a safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r asesiad a gynhaliwyd yn cadarnhau pa fwynau sy'n weddill o dan yr arwynebedd tir ar ôl i aneddiadau a chyfyngiadau sylweddol gael eu tynnu ymaith a pha arwynebedd fydd yn cael ei cholli o ganlyniad i symud dyraniadau CDLI ymlaen. Gweler Tabl 4 isod.
- 5.2.7. Nid yw'r asesiad a gynhaliwyd yn Nhabl 4 yn ystyried dyfnder na thrwch y mwyn; na lleoliad yr anheddau neu'r ffyrdd ynysig.

Tabl 4: Asesu mwyn digyfyngiad ac arwynebedd a gollwyd i ddyraniadau CDLI

Mwyn	Ardal y tu allan i aneddiadau a safleoedd dynodedig (ha)	Arwynebedd bras a gollir o ganlyniad i ddyraniadau CDLI (ha)	Colled uniongyrchol fel %
Tywod a Graean	9.158	39.35	0.43

⁸ PPW10 (Paragraffau 3.37 – 3.38) : <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Calchfaen	9.878	0.32	0.003
-----------	-------	------	-------

- 5.2.8. Gellir sicrhau lliniaru trwy ofyn am gloddio o flaen llaw, ond mae'n hanfodol bod y datblygiad heb fod yn fwynol ei hun yn dderbyniol o ran tirwedd ac nad oes problemau eraill yn cael eu creu trwy ostwng y tir, fel draenio a risg o lifogydd. Gallai rhywfaint o fewnforio deunydd anweithredol helpu i gyflawni plattform datblygu priodol, ond mae argaeledd gwastraff anweithredol yn amrywio gydag amser ac mae'r gwastraff gwirioneddol sy'n cael ei waredu arno mewn safleoedd tirlenwi anweithredol yng Ngogledd Cymru yn gyfyngedig iawn o ran y tunelledd cyffredinol a gynhyrchir⁹. Argymhellir felly bod y potensial am gloddio o flaen llaw yn cael ei ystyried yn gynnar er mwyn iddo allu cael ei ymgorffori yn y datblygiad cyffredinol.
- 5.2.9. Mae'r golled tywod a graean fel cyfran o'r tywod a graean cyffredinol yn y Sir yn gymharol fach a byddai'n llai na 1% o'r cyfanswm adnoddau sydd ar gael y tu allan i aneddiadau a safleoedd a gyfyngir gan ddynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Nid yw tywod a graean yn cael ei ddynodi'n fwyn sy'n brin ar raddfa genedlaethol ond oherwydd ei ddsbarthiad, mae'n cael ei sterileiddio'n fwyfwy gan ddatblygiadau heb fod yn fwynol. Mae dosbarthiad tywod a graean ar draws y rhanbarth yn fwy cyfyngedig mewn mannau eraill, ond ceir dyddodion o arwyddocâd masnachol o bosibl yng ngorllewin Gwynedd a Wrecsam. Mae gan Swydd Gaer hefyd ddyddodion arwyddocaol ac mae'n gyflenwr tywod a graean pwysig i Ogledd Orllewin Lloegr.
- 5.2.10. Ni all yr asesiad a gynhaliwyd ystyried ffactorau fel dyfnder, lefel y baich, ansawdd (er enghraifft, mae cloddio tywod a graean masnachol yn cynnwys gronynnau cyfoethog mewn silica, e.e. cwarts, cwartsit a fflint) a maint gronynnau (h.y. faint o dywod mân, tywod bras a graean sydd). Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon o fwynau sydd ar gael yn debygol o orddatgan yn sylweddol beth yw mwyn masnachol ymarferol mewn gwirionedd, yn enwedig o ystyried y gofyniad am barthau clustogi a thir iawndal. Er y derbynnir y bydd mwynau'n cael eu colli o ganlyniad i gyflwyno dyraniadau yn yr CDLI, mae hyn yn cynyddu pwysigrwydd diogelu adnoddau mwynol y tu allan i safleoedd presennol a dynodedig.

3.1 Nodi ardaloedd y dylid eu diogelu:

- 5.2.11. Mae amryw o wahanol fwynau o bwysigrwydd economaidd o dan dir Sir y Fflint sy'n cynnwys tywod a graean, calchfeini, tywodfaen, clai a mwynau metelog. Byddai diogelu'r holl fwynau o dan Sir y Fflint yn arwain at ddiogelu ardaloedd helaeth o'r Sir ac ystyrir bod hynny'n ddiangen ac o bosibl yn wrthgynhyrchiol. Mae Tabl 5 yn nodi'r rhesymeg ar gyfer diogelu gwahanol fwynau.

⁹ Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Gogledd Cymru Ebrill 2016 - <https://lyw.cymru/adroddiad-monitro-cynllunio-gwastraff-gogledd-cymru-ebriill-2016>

Agregau

- 5.2.12. Mae'r BGS wedi cyhoeddi map diogelu cenedlaethol ar gyfer Cymru, ac er nad yw'n bolisi, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ei fod yn darparu sail dystiolaeth allweddol i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r map yn nodi Ardaloedd Diogelu Agregau ac yn gwahaniaethu rhwng gwahanol gategoriâu o fwynau agregau:
- **Categori 1:** Yr adnoddau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru, er enghraifft tywod a graean (afonol-rhewlifol a cherlan), calchfaen purdeb uchel ac agreg manyleb uchel;
 - **Categori 2:** Yr adnoddau yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd mwy lleol ac y gallai fod ganddynt rywfaint o arwyddocâd rhanbarthol, er enghraifft tywod a graean is-waddodol, tywodfaen a thywodfaen gyda'r potensial am dywod silica a chraig silica; creigiau tanllyd, calchfaen (nid o burdeb uchel) a llechi; a
 - **Categori 3:** Nid yw'r adnoddau hyn wedi'u nodi ar y mapiau ond hwyrach eu bod yn cael eu gweithio'n lleol.
- 5.2.13. Argymhellir bod yr holl adnoddau Categori 1 yn cael eu diogelu ac eithrio tywodfaen oherwydd ei ddsbarthiad cyfyngedig iawn yn Sir y Fflint, mewn ardal gyda phwysau datblygu cyfyngedig iawn. Nid yw adnoddau Categori 2 wedi'u diogelu oherwydd argaeledd helaeth mwynau ansawdd uwch mewn mannau eraill neu ddiffyg galw. Adlewyrchir y dull hwn yn y mapiau cynigion sy'n cyd-fynd â'r CDLI adneuo.

Mwynau Heb fod Yn Agregau

- 5.2.14. Mae BGS hefyd wedi cyhoeddi Map Adnoddau Mwynau o Gymru sy'n dangos dosbarthiad ystod o fwynau, gan gynnwys agregau, mwynau diwydiannol ac ynni. Nid yw ardaloedd gyda glo crai ac eilaidd oddi tanynt wedi'u cynnwys yn yr ardaloedd diogelu oherwydd y dull polisi diwygiedig a gymerwyd yn PPW10 mewn perthynas â diogelu glo. Mae ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol wedi'u tynnu ymaith, yn ogystal ag aneddiadau. O gofio dosbarthiad cyfyngedig clai digyfyngiad yn y Sir, argymhellir nad clai wedi'i ddiogelu mohono yn yr CDLI.

Tabl 5: Rhesymeg Diogelu

Mwyn	Trafodaeth	Casgliad
Calchfaen	Ceir brigiad helaeth o galchfaen purdeb uchel yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o Axton yn y gogledd i Cadole yn y de a thu hwnt. Yn wahanol i awdurdodau eraill yn yr ardal hon, mae llawer o'r brigiad hwn heb ei effeithio gan ddynodiad AHNE. Ceir calchfeini ansawdd mwy gwael sy'n cael eu manteisio arnynt yn Sir y Fflint ar hyn o bryd ac y deellir bod calchfaen purdeb uchel oddi tanynt. Argymhellir felly bod yr holl galchfaen yn cael ei diogelu yn yr CDLI.	Bydd yr holl ddyddodion calchfaen yn cael eu diogelu yn yr CDLI
Tywod a Graean	Ceir dyddodion o dywod a graean ansawdd uchel, yn enwedig o gwmpas yr Wyddgrug a Dyffryn Chwiler, ac ar eu hyd mae nifer o ganiatadau mewn bodolaeth. Ceir digwyddiadau cyfyngedig iawn o ddyddodion tywod a graean ansawdd mwy gwael o fewn y Sir sy'n cyd-daro i raddau helaeth gyda gorlifdir C2. O gofio'r dosbarthiad tywod a graean, argymhellir bod yr CDLI yn canolbwyntio ar dywod a graean Categori 1 trwy ei bolisi diogelu.	Bydd dyddodion tywod a graean afonol-rhewlifol a cherlan yn cael eu diogelu yn yr CDLI.
Glo	Ceir dyddodion helaeth o lo crai yn Sir y Fflint, ond mae ardaloedd sylweddol eisoes wedi'u sterileiddio gan ddatblygiadau heb fod yn fwynol. Mae MTAN2 yn gofyn bod glo crai ac eilaidd yn cael ei ddiogelu. Fodd bynnag, nid yw Polisi Cynllunio Cymru 10 yn gofyn i lo gael ei ddiogelu. Gan nad oes amgylchiadau penodol gyda Sir y Fflint i warantu'r gwaith o ddiogelu adnoddau glo, nid yw'r Ardal Diogelu Mwynau'n diogelu adnoddau glo.	Nid oes angen i'r glo gael ei ddiogelu trwy'r CDLI.
Mwynau metellog	Cloddiwyd mwyn plwm a sinc yn hanesyddol yn Sir y Fflint. Hwyrach fod gwythiennau mwynol heb eu mapio'n parhau, ond byddai angen rhaglen geoffisegol, geocemegol a drilio helaeth er mwyn dynodi ansawdd a hyd a lled. Mae'r gwaith yn ddwfn dan y ddaear ar y cyfan, ni fyddai datblygiad ar yr wyneb yn sterileiddio'r dyddodion hyn.	Peidio â diogelu o fewn yr CDLI
Craig silica	Grut melinfaen wedi'i ddiraddio'n lleol o burdeb silica uchel yw hwn. Nid yw'n unigryw, ond mae'n parhau i gael ei weithio ger Eryrys. Ychydig wybodaeth sydd o ran ble mae'r graig silica "wedi'i diraddio" yn digwydd ac felly byddai'n rhaid diogelu'r grut melinfaen i gyd, sy'n anghymesur ac yn ddiangen. Mae gorchmynion gwahardd wedi diffodd hen ganiatadau cynllunio, gan awgrymu dim bwriad i weithio, ac felly'n mynegi diffyg galw economaidd.	Peidio â diogelu o fewn yr CDLI
Clai	Mae gan Sir y Fflint hanes o gloddio am glai, gydag ardaloedd o Gleiau Etruria Marl i'w canfod o gwmpas Bwcle, sef clai safon uchel ar gyfer gwneud brics. Mae cloddio am glai wedi dirywio'n sylweddol yng Ngogledd Cymru gyda mwyafrif y chwareli wedi'u gweithio ac/neu eu hadfer. Mae hyd a lled a dosbarthiad y math hwn o glai yn gyfyngedig iawn. O gofio dosbarthiad cyfyngedig y math hwn o glai, argymhellir nad yw'n cael ei ddiogelu yn yr CDLI.	Peidio â diogelu o fewn yr CDLI.
Tywodfaen gyda'r potensial am agreg manyleb uchel	Ceir digwyddiadau ynysig, bach iawn o frigiadau sydd wedi'u lleoli gan mwyafrif ar ochr Sir Ddinbych Bryniau Clwyd ond yn ymestyn i Sir y Fflint. Mae'r dyddodion wedi'u lleoli bron yn gyfan gwbl yn yr AHNE ac felly'n hynod annhebygol o gael eu gweithio byth.	Peidio â diogelu o fewn yr CDLI.

6. Sicrhau Cyflenwad Cynaliadwy o Fwynau

6.1. Cyflwyniad

6.1.1. Mae'r polisi cenedlaethol yn gosod yr angen i gynlluniau datblygu lleol ddarparu cyflenwad digonol o fwynau y gallai fod ar gymdeithas eu hangen nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn helpu hwyluso hyn, mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi dogfen Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2014) sy'n gosod lefel yr angen am graig wedi'i malu a thywod a graean ar draws y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd a 22 flynedd yn y drefn honno. Mae Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi gofyniad i glustnodi o leiaf 1.4 miliwn tonnall fetrig o dywod a graean ac o leiaf 3.84 miliwn tonnall fetrig o graig wedi'i malu, a rennir gyda Wreccsam. Mae ail adolygiad bellach yn digwydd ac fe'i trafodir ymhellach ym mharagraff 6.4.31.

6.1.2. Mae PPW10 yn gosod y gofyniad i CDLIau ddarparu arweiniad clir o ran ble mae cloddio mwynau'n debygol o fod yn dderbyniol a chynnwys polisiau sy'n diogelu nodweddion amgylcheddol sensitif ac yn darparu diogelwch amgylcheddol ac adnoddau. Mae cloddio mwynau masnachol yn annhebygol o fod yn dderbyniol mewn aneddiadau neu'n agos atynt ac mae MTAN1 ac MTAN2 yn cynnwys cyngor mewn perthynas â'r isafswm pellter rhwng gwaith mwynol ac aneddiadau: 500m yn achos glo, 200m mewn perthynas â chraig wedi'i malu a 100m mewn perthynas â thywod a graean a mathau eraill o fwynau lle nad oes angen chwythu. Mae PPW yn ceisio cyfeirio gweithio mwynau i ffwrdd o safleoedd gyda dynodiad Ewropeaidd a Chenedlaethol fel safleoedd Ramsar, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

6.1.3. Mae Wreccsam wedi mynd i'r afael â'r gofyniad uchod trwy ddynodi Ardaloedd Gwahardd Cloddio (AEC) ac mae'r dull hwn wedi'i ystyried ar gyfer CDLI Sir y Fflint hefyd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru newydd ymgynghori ar ei bwriad i newid ei dull yn ddrastig i lo, gan gynnwys olew a nwy ar y tir a fyddai'n tynnu ymaith yr angen i nodi'r fath ardaloedd ar gyfer mwynau ynni. Mewn perthynas â mwynau agregau, cynigir dyrannu safleoedd ar gyfer cloddio mwynau ac ystyrir bod hyn yn ffordd rymus o arwain cloddio mwynau newydd yn y Sir, gan dynnu ymaith yr angen i ddynodi AEC.

6.2. Craig wedi'i Malu

6.2.1. Calchfaen yw craig wedi'i malu sydd wedi'i gweithio yng Ngogledd Cymru gan mwyaf, gyda 66% o'r holl graig a falwyd yn dod o chwareli calchfaen yng Ngogledd Cymru yn 2015. Roedd llosgfaen, craig fetamorffig a llechi'n creu 25% a 9% o werthiant craig wedi'i malu yn 2015 yn y drefn honno a chaiff ei gweithio yng

ngorllewin y rhanbarth mewn nifer o safleoedd. O gofio dosbarthiad a hyd a lled llosgfaen, craig fetamorffig a llechi yn Sir y Fflint a Wrecsam, ystyrir mai'r ffynhonnell craig wedi'i malu mwyaf tebygol yw calchfaen.

- 6.2.2. Mae gan Sir y Fflint nifer o safleoedd sydd wrthi'n cynhyrchu calchfaen ar gyfer agreg, gan gynnwys Pant, Pant Y Pwll Dŵr, Hendre, Aberdo a Chefn Mawr. Mae calchfaen yn cael ei weithio yng Nghewn Mawr hefyd i ddarparu calchfaen ar gyfer y sment yn Paedwood. Mae tunelledd craig wedi'i malu a ddynodwyd gan Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn gymharol fach ac nid ystyrir ei fod yn ddigonol i gefnogi datblygiad chwarel newydd. Felly, y ffordd fwyaf tebygol o fodloni'r angen hwn yw trwy estyniad i chwarel bresennol yn Sir y Fflint. Cynhaliwyd galwad am safleoedd yn Sir y Fflint a Wrecsam: rhoddwyd nifer o safleoedd gerbron i gloddio mwynau yn Sir y Fflint lle na roddwyd unrhyw safleoedd gerbron yn Wrecsam. Felly, cynigiwyd dull cydweithredol rhwng Sir y Fflint a Wrecsam ac eir ar ei drywydd trwy CDLI Wrecsam ac CDLI Sir y Fflint. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Wrecsam wedi ymgynghori ynghylch ei CDLI Adneuo sy'n cadarnhau'r dull hwn a pharatowyd Datganiad Tir Cyffredin rhwng y ddau awdurdod i ddarparu tystiolaeth yn Archwiliad Cyhoeddus CDLI Wrecsam i roi sicrwydd i'r Arolygydd y byddai'r diffyg dynodedig yn cael ei ddarparu trwy estyniad i safle neu safleoedd yn Sir y Fflint.

6.3. Asesu Safleoedd Ymgeisiol

- 6.3.1. Nid yw'r fethodoleg asesu safleoedd ymgeisiol a ddatblygwyd i asesu cynigion am ddatblygiadau newydd yn yr CDLI yn uniongyrchol berthnasol i asesu cynigion ar gyfer cloddio mwynau. Y rheswm am hyn yw oherwydd y gellir ond gweithio mwynau lle maen nhw'n digwydd ac yn sgil yr angen i leihau effeithiau ar ddatblygiadau sensitif trwy leoli'n ofalus i ffwrdd o eiddo preswyl a defnyddiau sensitif eraill fel ysgolion. Mae'r dystiolaeth hyd yma'n dynodi bod gofynion dyrannu'n annhebygol o fod yn ddigonol i gefnogi datblygu chwarel hollol newydd ar gyfer craig galed ac felly mae lleoliad chwareli presennol a allai gael eu hymestyn o bwys hefyd. Mae angen CDLlau i ddangos bod strategaeth a pholisïau'r CDLI yn ymarferol ac yn bosibl eu cyflawni. Mae ymgysylltu â gweithredwyr yn ffordd bwysig o sicrhau bod modd cyflawni safleoedd dynodedig ac maen nhw wedi'u cynnal ar hyd proses yr CDLI.
- 6.3.2. Cynhaliwyd Galwad am Safleoedd yn 2014 ar gyfer pob math o ddatblygiad. Mewn ymateb, rhoddwyd nifer o safleoedd mwynol gerbron gan weithredwyr a thirfeddianwyr. Yn ogystal, cynhaliwyd Galwad am Safleoedd targedig ar gyfer mwynau a gwastraff yn 2017 a anogodd gyflwyno nifer o safleoedd ychwanegol. Mae

Atodiad 3 yn rhoi manylion yr asesiad a gyflawnwyd ar gyfer pob safle.

6.4. Safleoedd Craig wedi'i Malu

- 6.4.1. Rhoddwyd nifer o safleoedd gerbron mewn ymateb i'r Alwad am Safleoedd a allai helpu i fodloni'r angen am graig wedi'i malu. Ni fyddai'r holl safleoedd yn ofynnol i fodloni'r angen hwn ac, yn dilyn asesiad cychwynnol o'r safleoedd, argymhellir dau safle am ystyriaeth bellach:
- i) Chwarel Hendre; a
 - ii) Chwarel Pant Y Pwll Dŵr.

Chwarel Hendre

- 6.4.2. Chwarel calchfaen yw Hendre a weithredir gan Tarmac ac mae ganddo ganiatâd cynllunio i gloddio mwynau tan 31 Rhagfyr 2030 ar ôl cael cymeradwyaeth gynllunio i ymestyn yr amser dan gyfeirnod 058984. Bydd hyn yn galluogi Tarmac i gloddio'r cronfeydd a ganiateir sy'n weddill ar y safle. Cyflwyniad i Alwad Pellach Sir y Fflint am Safleoedd Ymgeisiol Mwynau i ymestyn Chwarel bresennol Hendre i'r ochr i gyfeiriad y dwyrain ac i ddyfnhau'r gwaith.

Ansawdd a dosbarthiad mwynau

- 6.4.3. Gallai'r estyniad potensial i Chwarel Hendre gyflawni 10 miliwn tunnell fetrig ychwanegol o Galchfaen Loggerheads (3 miliwn tunnell fetrig o weithio i'r dwyrain a 7 miliwn tunnell fetrig o ddyfnder). Byddai'r estyniad arfaethedig hefyd yn sicrhau cronfeydd ychwanegol o 1 miliwn tunnell fetrig o 'Toprock' Calchfaen Cefn mawr. Y gyfradd cloddio bresennol yw 700,000 tunnell fetrig y flwyddyn. Felly, yn ôl y cyfraddau cloddio presennol, byddai hynny'n darparu cyflenwad ychwanegol o 15 mlynedd o galchfaen, yn ogystal â'r cronfeydd presennol a ganiateir.

Amwynder Preswyl

- 6.4.4. Mae fferm Pentre Lygan Uchaf 400 metr i gyfeiriad y dwyrain o'r ardal gloddio arfaethedig. Ni fyddai'r estyniad arfaethedig yn dod â'r ardal gloddio'n agosach at eiddo'n agos at ogledd y safle.

Priffyrdd

- 6.4.5. Eir at y chwarel trwy Ffordd Sirol ddi-ddosbarth sy'n cysylltu'r A541 a'r B5123. Oherwydd agosrwydd y chwarel at gefnffordd yr A55, ystyrir ei bod yn gyfleuster strategol bwysig sy'n cyflenwi cynhyrchion calchfaen i ranbarth Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

- 6.4.6. Ni fyddai'r estyniad yn cynyddu tunelledd y deunydd y gallai'r safle ei gynhyrchu ac felly ni fyddai nifer gyffredinol a'r mathau o gerbydau sy'n mynd at y safle'n newid o ganlyniad. Felly, mewn egwyddor, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar briffyrdd yn sgil yr estyniad.

Risg o Lifogydd

- 6.4.7. Mae priffordd gyhoeddus yr A541 nesaf at y chwarel yn sefyll ym Mharth C2: ardaloedd o'r gorlifdir heb isadeiledd amddiffyn rhag llifogydd arwyddocaol.

Gweledol a thirwedd

- 6.4.8. Nid yw'r safle mewn dynodiad tirwedd ffurfiol. Mae'r safle i'w weld o olygfannau i gyfeiriad y de a de orllewin y chwarel. Nid yw o fewn, ond mae i'w weld o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sydd bron i 2km i gyfeiriad y gorllewin o'r chwarel. Mewn perthynas â'r effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd, byddai hyn yn cael ei asesu yng nghan y cais cynllunio.

Ecoleg

- 6.4.9. Mae SoDdGA Coed-y-felin yn syth i gyfeiriad y de o'r chwarel. Ni fyddai'r estyniad arfaethedig yn agosach at y SoDdGA. Mae SoDdGA Coed Lygan-Uchaf a Choed Nant Figillt Ruby Quarry i gyfeiriad y dwyrain o'r chwarel. Yn ei hanfod, byddai'r estyniad yn symud ffin yr ardal gloddio 250 metr yn agosach at y SoDdGA. Yna, byddai'r SoDdGA'n gorwedd 600 metr i gyfeiriad y dwyrain o'r ffin gloddio.
- 6.4.10. Mae cyfres o wrychoedd a choed ar y safle a fyddai'n cael eu colli gan y datblygiad. Mae gan estyniad y safle'r potensial i effeithio ar foch daear ac ystumod. Ceir Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Hendre sy'n disgrifio ardal yr estyniad fel glaswelltir wedi'i wella gyda gwrychoedd, ond gan ei fod ar galchfaen, mae'n fwy tebygol o fod wedi ei led-wella. Cyfeiria'r cynllun gweithredu hefyd at adrannau o laswelltir niwtral a chalchfaen (cul) i'w rheoli ar hyd ffin ddwyreiniol y chwarel a fyddai'n cael eu colli, felly byddai'n bwysig creu glaswelltiroedd calchfaen/niwtral eraill. Ceir clwydi ystumod adnabyddus ac mae gan yr ardal botensial uchel am rywogaethau ystumod yn gyffredinol. Rhwng tirdaliad presennol y gweithredwr sy'n cynnwys y chwarel a pharhau â'r cyllid i NWWT i reoli gwarchodfa natur Coed y Felin, byddai nifer o ddewisiadau gwella bioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.

Treftadaeth ac Archeoleg

- 6.4.11. Mae'r safle'n agos at Dŷ Injan Gradd II a restrwyd fel enghraifft dda o dŷ injan ac ar gyfer cysylltiadau hanesyddol gyda'r diwydiant lleol. Mae gan yr ardal hanes o gloddio plwm ac felly mae'n debygol fod yno weddillion archeolegol heb eu tarfu arnynt yn ardal yr estyniad. Fel rhan o'r adolygiad blaenorol o ganiatâd cynllunio mwynol ar gyfer y chwarel, roedd cyfarwyddyd gwylio archeolegol yn ofynnol yn ystod y gwaith stripio pridd. Petai unrhyw gais yn cael ei gyflwyno, a chaniatâd cynllunio'n cael ei roi yn dilyn hynny, mae'n debygol y byddai hyn yn ofyniad mewn unrhyw ganiatâd amodol.

Ansawdd tir amaethyddol

- 6.4.12. Byddai'r ardal yr estyniad yn effeithio ar 8 hectar o dir amaethyddol gradd 3a.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 6.4.13. Mae Hawl Tramwy Cyhoeddus 24 wedi'i lleoli i gyfeiriad y gogledd a'r dwyrain o ardal yr estyniad arfaethedig. Ni fyddai hyn yn gofyn am unrhyw ddargyfeiriad os bydd y safle'n cael ei ddatblygu.

Diogelu Maes Awyr

- 6.4.14. Nid yw safle'r estyniad arfaethedig o fewn ardal Ddiogelu'r Maes Awyr ond mae 90 metr i gyfeiriad y de o'r estyniad ac yn rhan o safle'r chwarel bresennol yn yr ardal Diogelu Maes Awyr ac felly byddai angen ymgynghoriad fel rhan o broses yr CDLI a phetai cais cynllunio'n cael ei gyflwyno.

Chwarel Pant Y Pwll Dŵr

- 6.4.15. Chwarel calchfaen yw Pant Y Pwll Dŵr a weithredir gan Cemex ac sydd â chaniatâd cynllunio i gloddio mwynau tan 21 Chwefror 2042. Rhoddodd y gweithredwr ddau safle gerbron i'w cynnwys yn yr CDLI: estyniad i orllewin y chwarel ac estyniad i'r gogledd, gan ymestyn i'r bwnd gorlwytho. Mae'r gweithredwr wedi cadarnhau nad ydynt bellach yn dymuno mynd ar drywydd yr estyniad gorllewinol a bod yr asesiad hwn felly'n seiliedig ar yr estyniad gogleddol.

Ansawdd a dosbarthiad mwynau

- 6.4.16. Mae'r gweithredwr wedi cyflwyno gwybodaeth sy'n dangos y cyfraniad y byddai'r dyraniad yn ei wneud dros y tymor hwy, y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun. Yn ôl y cyfraddau cynhyrchu cyfredol, bydd y cronfeydd a ganiateir yn cael eu disbyddu o fewn Cyfnod y Cynllun. Mae'r safle'n cynhyrchu calchfaen ansawdd uchel iawn

sydd ag amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau, gan gynnwys ceisiadau diwydiannol.

- 6.4.17. Gallai'r estyniad arfaethedig gyflenwi hyd at 13 miliwn tonnall fetrig o galchfaen sy'n addas i'w prosesu'n gynhyrchion agregau i barhau â busnes presennol y Cwmni. Yn ôl y cyfraddau allbwn presennol, byddai hyn yn ymestyn bywyd y chwarel gan ryw un deg saith o flynyddoedd. Unwaith eto, bydd y caniatâd mewn bod ar gyfer Chwarel Pant y Pwll Dŵr, yn ôl y gyfradd gwerthiant gyfredol, yn arwain at ddisbyddu'r safle erbyn 2031, o fewn cyfnod arfaethedig y Cynllun.
- 6.4.18. Ystyrir bod y Chwarel o bwysigrwydd hanfodol a strategol i'r Cwmni oherwydd ei hagosrwydd at yr A55 ac mae'n cyflenwi cryn dipyn o agregau i Ogledd Orllewin Lloegr. Byddai estyniad yn gwireddu 13 miliwn tonnall fetrig pellach o galchfaen o'r un safon uchel a byddai'n ymestyn bywyd y safle tan oddeutu 2033 - 2036 yn dibynnu ar y cyfraddau cynhyrchu.

Amwynder Preswyl

- 6.4.19. Byddai'r estyniad gogleddol arfaethedig yn dod ag ardal gloddio'r chwarel yn agosach at eiddo preswyl a derbynyddion sensitif i ogledd orllewin y safle. Mae'r eiddo preswyl agosaf ychydig dros 100 metr i ogledd orllewin ardal gloddio'r estyniad arfaethedig.
- 6.4.20. Ceir nifer fach o eiddo preswyl unig yn agos at y safle a allai gael eu heffeithio gan estyniad. Mae'r gweithredwr wedi cynnal asesiad, sy'n dangos na fyddai cyfyngiadau yn MTAN 1 yn cael eu torri yn y eiddo agosaf, sef Pant y Groes, Parc y Prysau a Parry's Mine. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am ostyngiad yn yr uchafswm ffrwydrad union er mwyn sicrhau nad yw'r terfynau'n cael eu torri ym Mhant y Groes.
- 6.4.21. Yn ogystal ag effeithiau chwythu, mae gan yr estyniad y potensial i gael effaith weledol ar dderbynyddion sensitif ac i greu poendod trwy greu sŵn a llwch. Mae rhan o ardal yr estyniad yn cael eu defnyddio gan fwnd ar hyn o bryd sy'n darparu gwaith lliniaru gweledol a gwanhau sŵn ar gyfer eiddo i ogledd orllewin y safle.

Priffyrdd

- 6.4.22. Mae Gwibffordd A55 Gogledd Cymru 1.5km i gyfeiriad y dwyrain o'r safle, gyda mynediad i'r llwybr hwn o'r chwarel yn dod o ffyrdd di-ddosbarth lleol trwy Bentre Halklyn, gan gysylltu â'r B5123 ac yn cysylltu â chefnffordd yr A55 yng Nghyfnnewidfa Springfield. Oherwydd agosrwydd y chwarael at gefnffordd yr A55, ystyrir ei fod yn gyfleuster strategol bwysg sy'n cyflenwi cynhyrchion calchfaen i ranbarth Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.
- 6.4.23. Er mwyn rhyddhau mwynau yn rhan ogleddol y safle, byddai angen ail-gyflunio'r mynediad. Er nad yw union leoliad y mynediad

yn hysbys ar hyn o bryd, mae hwn yn fater y gellir ymdrin yn rhesymol ag ef yng ngham y cais cynllunio. Ni fyddai'r estyniad yn cynyddu tunelledd y deunydd y gallai'r safle ei gynhyrchu ac felly ni fyddai nifer gyffredinol a'r mathau o gerbydau sy'n mynd at y safle'n newid o ganlyniad. Felly, mewn egwyddor, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar briffyrdd yn sgil yr estyniad.

Ecoleg

6.4.24. Mae'r safle arfaethedig yn cynnwys swmp Safle Bywyd Gwyllt Anstatudol Pant y Pwll Dŵr, a byddai ennill a gweithio'r mwyn yn arwain at ei golli. Fodd bynnag, saif mwyafrif safle'r estyniad arfaethedig bellach islaw ardal storio gorlwytho newydd ei ffurfio, a phenderfynodd asesiad ecolegol a gynhaliwyd i gefnogi cais cynllunio rhif 055218, ar wahân i ardal fach o laswelltir wedi'i ledwella, ychydig o ddiddordeb ecolegol oedd yn y Safle Bywyd Gwyllt. Arweiniodd ddatblygiad y bwnd gorlwytho at golli'r safle bywyd gwyllt, ond derbyniwyd hyn oherwydd roedd y bwnd gorlwytho'n cael ei adfer i laswelltir calchaid sy'n cyd-fynd â nodweddion SoDdGA/AGA mynydd Halkyn. Gallai'r cynefin hwn gael ei ail-greu o fewn ymylon cynnig datblygu penodol i ennill a gweithio mwynau yn yr ardal a gynigir. Saif y safle hefyd yn rhannol o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Comin Halkyn a Glaswelltiroedd Treffynnon. Fodd bynnag, mae'r safle cyfan sy'n gorwedd o fewn y SoDdGA yn rhan o'r chwarel weithredol ac felly'n cael ei tharfu arni'n gyson ac felly nid yw'n chwarae rôl yng ngwerth cadwraeth natur y SoDdGA ehangach.

6.4.25. Mae'r estyniad arfaethedig hefyd yn gorwedd yn agos at Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) Mynydd Halkyn, sy'n gorwedd i gyfeiriad y gogledd a'r de. Fodd bynnag, fel gyda'r SoDdGA, ni ddynododd asesiadau a gynhaliwyd ar y cyd â chaniatâd cynllunio rhif 055218 effaith ar yr AGA, nid oedd ychwaith lwybr y gallai'r datblygiad hwnnw gael effaith ar yr AGA a ddynodwyd. Byddai angen i golled yr ardal hon gael ei digolledu naill ai o fewn y safle neu ar dir o fewn rheolaeth yr ymgeisydd. At hynny, roedd adferiad terfynol y chwarel yn cynnwys nodweddion tebyg.

Treftadaeth ac Archeoleg

6.4.26. Saif y safle'n agos at Heneb Restredig Parc y Prysau Tumulus B. Penderfynodd asesiad a gynhaliwyd ar y cyd â chaniatâd cynllunio rhif 055218 nad yw'r Heneb yn ei lleoliad topograffig gwreiddiol oherwydd y gweithgarwch mwyngloddio hanesyddol ac mae ei brif werth yn yr Heneb ei hun, nid ei lleoliad. Ni fyddai ardal yr estyniad arfaethedig yn ymyrryd ar yr Heneb ei hun, gan ei adael heb ei tharfu arni. At hynny, fel rhan o ganiatâd 055218, rhoddwyd rhaglen o waith maes archeolegol ar waith yn yr ardal arfaethedig, ychydig o arwyddocâd a nodwyd.

Effaith Weledol a Thirwedd

- 6.4.27. Saif y safle'n gyfan gwbl o fewn, ond wrth ymyl, Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Naturiol Eithriadol Comin Treffynnon a Mynydd Halkyn. Mae hwn yn ddynodiad anstatudol ac ystyrir na fyddai ardal yr estyniad arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw nodweddion penodol ynddi. Mewn perthynas ag effaith weledol, byddai hyn yn cael ei asesu yng ngham y cais cynllunio.

Tir Comin

- 6.4.28. Mae'r safle wedi'i gofrestru'n Dir Comin a ddefnyddir gan Borwyr Halkyn i bori eu hanifeiliaid. Mae'n cynnwys glaswelltir yr ucheldir gydag ardaloedd gwasgaredig bach o redyn; defnyddir y tir yn bennaf i ddefaid bori arno ond ceir arwyddion a ddefnyddir hefyd ar gyfer marchogaeth achlysurol. Mae'n cynnwys dau dwll segur ac wedi'u ffensio. Os bydd y safle'n dod gerbron fel cais cynllunio, byddai'n rhaid gofyn am yr holl ganiatadau perthnasol o Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn unol â Deddf Tiroedd Comin 2006.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 6.4.29. Mae dwy hawl tramwy gyhoeddus; FP32 ac FP36 sy'n croesi safle'r estyniad arfaethedig, a ffordd breifat sy'n arwain at eiddo o'r enw Nant y Fuwch sydd hefyd yn croesi'r safle y byddai angen ei ddargyfeirio.

Crynodeb o Ddyraniadau Craig wedi'i Malu ar hyn o bryd

- 6.4.30. O gofio presenoldeb safleoedd craig galed gweithredol presennol yn Sir y Fflint, ystyrir bod y gofyniad a nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi cael ei fodloni'n fwy cynaliadwy yn Sir y Fflint o estyniad i chwarel bresennol yn hytrach na sefydlu chwarel newydd. Mae'r uchod yn dangos bod gweithredwyr chwarel y ddwy chwarel galchfaen bresennol a enwir yn ymroi i ymestyn y safleoedd hyn i fodloni'r diffyg a bydd y ddau safle'n dod gerbron fel dyraniadau yn CDLI Sir y Fflint ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu. Yn amodol ar y caniatadau cynllunio angenrheidiol, mae sicrwydd y bydd y diffyg craig wedi'i malu yn y rhanbarth, a nodwyd yn adolygiad cyntaf y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cael ei ddarparu gan estyniad i chwarel bresennol yn Sir y Fflint.

Goblygiadau i'r dyfodol 2^{il} Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol

- 6.4.31. Ar adeg cyhoeddi'r Strategaeth Ddewisol a Pholisi STR16, nid oes adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau wedi dechrau eto. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a rhagwelir y byddai ymgynghoriad ar y ddogfen hon yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref 2019. Mae'r dynodiadau cynnar yn dangos y bydd gofyniad cynyddol i gyfrannu at y cyflenwad o graig wedi'i malu ranbarthol (calchfaen).

Ni fydd 2^{il} adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cael ei gyhoeddi tan ddechrau 2020. Byddai'r dyraniadau ar gyfer craig wedi'i malu yn yr CDLI yn mynd ymhell i gyfrannu at y gofyniad hwn. Yn achos diffyg, gellir mynd i'r afael â hyn yn adolygiad pum mlynedd gyntaf yr CDLI a chydweithrediadau posibl eraill gydag awdurdodau cyfagos.

6.5. Tywod a Graean

- 6.5.1. Mae gan Sir y Fflint nifer fach o safleoedd tywod a graean gweithredol, sef Maes Mynan, Fron Haul a Kinnerton a safle anweithredol, sef Ddol Uchaf. Mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n cyhoeddi arolwg blynyddol sy'n gosod lefel y gwerthiant agregau yn y rhanbarth. Oherwydd cyfrinachedd masnachol a'r nifer gyfyngedig o safleoedd mewn mannau eraill yn y rhanbarth, mae'r data ar gyfer Sir y Fflint wedi'i gyfuno â ffigurau ar gyfer awdurdodau cynhyrchu tywod a graean eraill gan gynnwys Wrecsam a Gwynedd. Dynododd arolwg blynyddol 2015 fod yna fanc tir 24 blynedd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a banc tir 21 mlynedd ar draws Gogledd Cymru gyfan gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant o 10 mlynedd. Dynodwyd gofyniad am 1.4 miliwn tunnell fetrig yn Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ystod yr Alwad am safleoedd, rhoddwyd dau safle gerbron i gloddio tywod a graean :
- Chwarel Fron Haul; a
 - Chwarel Ddol Uchaf

Chwarel Fron Haul

- 6.5.2. Chwarel tywod a graean gweithredol yw Fron Haul ac mae ganddi ganiatâd cynllunio i gloddio tywod a graean, cyfeirnod 037406 sy'n gofyn bod caniatâd cynllunio'n dod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2022. Mae cronfeydd tywod a graean heb eu caniatáu o dan y gweithfeydd a swyddfeydd sy'n amcangyfrif y byddai cynnyrch o oddeutu 500,000 tunnell fetrig yn cyfrannu at y tunelledd gofynnol a ddynodwyd yn Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol.
- 6.5.3. Mae'r ardal a gynigir o fewn ffin y caniatâd cynllunio presennol yn gyfan gwbl ac fe'i defnyddir ar hyn o bryd gan swyddfeydd a gweithfeydd penodol. Byddai'r mynediad presennol yn cael ei ddefnyddio. Ystyrir na fyddai'r cynnig yn cael mwy o effaith o gymharu â'r datblygiad cymeradwy presennol.

Lleoliad a Disgrifiad o'r Safle

- 6.5.4. Chwarel tywod a graean yw chwarel Fron Haul quarry yn Afonwen ac mae'n eiddo i Breedon Aggregates. Mae'r safle oddi ar yr A541, rhyw 3km i gyfeiriad y dwyrain o Chwarel Maes Mynan. Nid

oes unrhyw fwyn yn cael ei gloddio o Fron Haul ar hyn o bryd, ond mae'r safle'n parhau i gael ei ddefnyddio fel y prif ardal bentyrru a phrosesu ar gyfer mwynau a gloddiwyd o chwarel Maes Mynan gerllaw a weithredir gan Breedon Aggregates hefyd. Cludir y mwyn trwy HGV o Faes Mynan i Fron Haul lle caiff ei brosesu (ei falu a'i sgrinio) ac yna'i bentyrru cyn ei gludo oddi ar y safle. Ar gyfartaledd, mae rhyw 8,000 tonn fetrig o fwyn yn gadael y safle bob mis. Nid oes unrhyw ddeunydd yn cael ei gloddio o Fron Haul ar hyn o bryd, ond mae cronfeydd caniatâd sylweddol yn weddill.

- 6.5.5. Yn ogystal, mae Breedon Aggregates yn gweithredu chwarel tywod a graean i gyfeiriad y gorllewin o'r safle yn Chwarel Maes Mynan a gafodd ganiatâd am estyniad o'r ardal ac o amser i 2023 yn 2016. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd yn teneuo ym Maes Mynan a phan fydd y safle wedi'i weithio'n llwyr, credir y bydd y cwmni'n ailddechrau gweithrediadau ym Maes Mynan.

Ansawdd a dosbarthiad mwynau

- 6.5.6. Nid yw ansawdd y mwyn o dan ardal y gwaith yn hysbys ar hyn o bryd gan nad oes tyllau turio wedi'u drilio. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud yn 2020. Fodd bynnag, disgwylir iddo gynnwys 80% o dwyod mân crwn ac 20% o raeon oherwydd y cofnodion presennol ar gyfer y cronfeydd a ganiateir ar y safle.
- 6.5.7. Mae gweithredwyr presennol chwarel Fron Haul hefyd yn gweithredu Chwarel Maes Mynan 3km i gyfeiriad y gorllewin o Fron Haul. Bydd y safle hwn yn cael ei weithio allan yn fuan a disgwylir y byddai Fron Haul yn cael ei weithio ar ôl disbyddu Chwarel Maes Mynan. Rhagwelir y byddai parhad o'r cynhyrchiant blynyddol sydd wedi bod oddeutu 140,000 tonn fetrig y flwyddyn yn hanesyddol.
- 6.5.8. Byddai estyniad i'r chwarel bresennol yn sicrhau gwaith am 3.5 blynedd ychwanegol i'r gweithlu cyfredol yn Chwareli Maes Mynan a Fron Haul gan y byddai pob un yn trosglwyddo i Fron Haul o gau Maes Mynan.
- 6.5.9. Disgwylir cyflwyno cais yn ystod 2021 ar gyfer ardal yr estyniad a rhagwelir y byddai'r safle'n gweithredu am 3.5 blynedd ychwanegol.
- 6.5.10. Mae gan y safle gyfleuster pwysig i'r cwmni gweithredu ac mae ganddynt ymrwymiad i weithio'r chwarel ar ôl i Chwarel Maes Mynan gau.

Amwynder Preswyl

- 6.5.11. Gan fod yr estyniad arfaethedig o fewn cyfyngiadau ffin y caniatâd cynllunio presennol a ganiateir, ni fyddai unrhyw effaith ychwanegol ar amwynder preswyl.

Priffyrdd

- 6.5.12. Eir at y safle o'r A541. Ni fyddai unrhyw newid i'r mynediad sydd ohoni ac ni ragwelir y bydd y cyfraddau allbwn yn cynyddu dros gyfraddau allbwn presennol Maes Mynan sef 140,000 tonnall fetrig y flwyddyn. Mae gan y caniatâd mewn bod gyfyngiad allbwn o 220,000 tonnall fetrig y flwyddyn ac felly ni ddisgwylir y bydd yr estyniad arfaethedig yn cael unrhyw effaith ychwnaegol ar y priffyrdd.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 6.5.13. Ni fyddai'r estyniad arfaethedig yn cael effaith ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Ecoleg

- 6.5.14. Gan fod yr estyniad arfaethedig yn ffin bresennol y chwarel, byddai gan y cynnig effaith gyfyngedig ar ecoleg ar fuddiannau cadwraeth natur. Ceir coetiroedd hynafol a lled hynafol o fewn 200m o'r safle ac mae yna safleoedd bywyd gwylt o fewn 100m o'r safle.

Treftadaeth ac Archeoleg

- 6.5.15. Gan fod yr estyniad arfaethedig o fewn cyfyngiadau safle'r chwarel bresennol, mae'r arwyneb eisoes wedi'i tharfu arni.

Effaith Weledol a Thirwedd

- 6.5.16. Mae AHNE Bryniau Clwyd i gyfeiriad y de o'r chwarel. Nid yw'n debygol y bydd yr estyniad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar y dirwedd gan ei fod wedi'i gynnwys o fewn cyfyngiadau'r chwarel bresennol. Fodd bynnag, o ran yr effaith weledol, byddai hyn yn cael ei asesu yng nghan y cais cynllunio.

Chwarel Ddol Uchaf

- 6.5.17. Ar hyn o bryd, mae Ddol Uchaf yn chwarel tywod a graean anweithredol. Rhoddwyd caniatâd i ennill a gweithio tywod a graean yn Ddol Uchaf ym 1946 dan Orchymyn Datblygu Dros Dro. Ar 3 Chwefror 1965, rhoddwyd caniatâd cynllunio pellach yn y safle i ennill a gweithio tywod a graean. Adolygwyd yr amodau hyn dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd a rhoddwyd caniatâd ar 14 Ionawr 2013 tan 21 Chwefror 2042 dan gyfeirnod cynllunio 029143.

Lleoliad a Disgrifiad o'r Safle

- 6.5.18. Chwarel tywod a graean yn Afonwen yw Ddol Uchaf y mae Breedon Aggregates yn berchen arni. Mae'r gweithrediadau'n segur ar hyn o bryd, ac wedi bod felly ers rhyw 18 mlynedd. Gweithiwyd y chwarel ddiwethaf yn oddeutu 2001 ac ers hynny mae wedi bod yn segur ac mae rhywfaint o aildyfiant naturiol wedi digwydd ar y safle. Mae Breedon Aggregates hefyd yn gweithredu chwarel tywod a graean i orllewin y safle hwn yn Chwarel Maes Mynan a gafodd estyniad o'r ardal ac o amser hyd at 2023 yn

2016. Fel y nodwyd uchod, bwriad Breedon Aggregates yw gweithio Chwarel Fron Haul ar ôl i Faes Mynan gael ei weithio, ac yna byddai'n symud i Ddol Uchaf ac yn ailddechrau gweithrediadau yn Ddol Uchaf ar ôl i'r cronfeydd ddisbyddu yn Fron Haul.

- 6.5.19. Mae'r chwarel bresennol yn cwmpasu arwynebedd o ryw 5.2ha, mae rhyw 3.1ha ohoni wedi'i weithio'n flaenorol i ddyfnder o 103.3m AOD mewn rhannau. Byddai'r estyniad arfaethedig yn cynyddu'r safle i 10ha.
- 6.5.20. Saif y safle yn union i gyfeiriad y Dwyrain o bentref Afonwen ac mae'r A541 bob ochr iddo a thu hwnt i hynny mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Mae'r safle wedi'i amgylchynu bron yn llwyr gan dir amaethyddol, ond mae yna rai eiddo preswyl i gyfeiriad y Dwyrain lle cyflawnir mynediad i'r chwarel ar hyn o bryd.

Ansawdd a dosbarthiad mwynau

- 6.5.21. Amcangyfrifir bod rhyw 500,000 tonnall fetrig o gronfeydd mwynau wedi'u caniatáu'n parhau yn Ddol Uchaf, a haerir y byddai'r cyfraddau cloddio blynyddol yn debyg i Chwarel Maes Mynan, sef 140,000 tonnall fetrig y flwyddyn.
- 6.5.22. Disgwylir y byddai'r estyniad arfaethedig yn cynhyrchu 1.4 miliwn tonnall fetrig. Gyda'r cyfraddau cynhyrchu amcanol, byddai hyn yn ymestyn oes y chwarel am 10 mlynedd pellach dros y 3.5 blynedd bresennol sy'n weddill yng nghronfeydd a ganiateir y chwarel.
- 6.5.23. Mae'r safle'n gyfleuster pwysig i'r cwmni gweithredu ac mae ganddynt ymrwymiad i weithio'r chwarel ar ôl i Chwarel Fron Haul gau, disgwylir i hynny ddigwydd yn oddeutu 2027.

Amwynder Preswyl

- 6.5.24. Mae nifer gyfyngedig o anheddau gwledig a fferm gerllaw ac/neu yn edrych dros ffin bresennol y safle a ganiateir. Ystyrir na fyddai ardal yr estyniad yn cael eu hedrych drosodd gan eiddo preswyl. Fodd bynnag, byddai'r estyniad yn agosach at eiddo preswyl yn Afonwen. Serch hynny, byddai parth clustogi priodol yn cael ei roi ar waith yn unol â Pholisi 24 arfaethedig yr CDLI.

Priffyrdd

- 6.5.25. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym 1989 ar gyfer mynediad i'r chwarel yn uniongyrchol oddi ar yr A541. Cwblhawyd safn y mynediad newydd hwn hyd at ffin y briffordd ond nid yw'r ffordd fynediad sy'n weddill i fynd trwy'r chwarel wedi'i hadeiladu eto. Rhagwelir y byddai'r estyniad arfaethedig yn Ddol Uchaf yn darparu parhad mewn gwaith yn sgil cau Fron Haul. Rhagwelir na

fyddai cynnydd yn symudiadau'r cerbydau ar hyd yr A451 gan na fyddai'r ddau safle'n gweithredu ar yr un pryd.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 6.5.26. Mae Llwybr Troed 27 i gyfeiriad y gogledd o'r safle presennol, a thrwy'r estyniad arfaethedig. Felly, byddai angen dargyfeiriad dros dro o'r hawl tramwy cyhoeddus hwn os bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi.

Ecoleg

- 6.5.27. Mae'r safle wedi'i ddynodi'n safle bywyd gwyllt lleol (Pydew Tywod Ddol Uchaf) ac mae nifer o safleoedd bywyd gwyllt lleol eraill o fewn 200m i'r safle. Mae SoDdGa Ddol Uchaf yn union i gyfeiriad y dwyrain o'r safle. Mae SoDdGa Caerwys Tufa (a ddynodwyd ar gyfer nodweddion daearegol) 200m i gyfeiriad y gorllewin o ardal yr estyniad ac mae SoDdGA Coed Trefaith 800 metr i ogledd ardal yr estyniad arfaethedig. Bydd yr effaith ar ecoleg yn cael ei asesu yng ngham y cais cynllunio.

Coed

- 6.5.28. Bydd Coed Wyn sy'n uno â'r A541 yn cael eu cadw. Bydd coed wedi'i hunan-hau, lled-aeddfed sy'n ffurfio ffin y safle presennol a'r estyniad arfaethedig yn cael eu cwmpo.

Treftadaeth ac Archeoleg

- 6.5.29. Coetir hynafol a lled hynafol i gyfeiriad y de o'r safle. Efallai bod diddordeb archeolegol potensial ar y safle hwn a fyddai'n cael ei asesu yng ngham y cais cynllunio.

Effaith weledol a thirwedd

- 6.5.30. Mae AHNE Bryniau Clwyd gerllaw ffin Ddeheuol y safle. Bydd tirwedd ac effaith weledol unrhyw estyniad yn cael eu hasesu yng ngham y cais cynllunio.

Risg o Lifogydd/hydrodaeareg

- 6.5.31. Nid yw'r safle mewn ardal risg o lifogydd ac felly ni fydd angen asesiad o ganlyniadau llifogydd. Mae'n annhebygol y bydd y safle'n cael ei sychu gan fod y cynigion cynt ar gyfer gweithio gwlyb, gan y byddai ardal weithio'r pydew tywod i'r dyfodol yn cael ei weithio o dan y lefel trwythiad. Bydd y materion hyn yn destun asesiad yng ngham y cais cynllunio ac yn cael eu cynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol.

6.6. Mwynau Heb fod yn Agregau

Clai

- 6.6.1. Ni chynhelir rhagolygon o angen ar gyfer mathau o fwynau heb fod yn agregau a byddai angen eu hystyried fesul achos. Mae clai a siâl yn parhau i gael eu gweithio mewn safleoedd yn Lloegr 10 ond dirywiodd gwerthiant yn sylweddol yn dilyn y dirwasgiad ac nid ydynt eto wedi gwella i'r lefelau cyn 2008. Mae clai a siâl wedi'u gweithio mewn nifer o safleoedd ym Mwcle, ond, yn y blynyddoedd diwethaf, cloddiwyd mewn un safle at ddibenion peiriannu yn y safle ei hun. O gofio argaeledd safleoedd presennol cronfeydd a ganiateir a'r dirywiad yn y galw am glai ar draws y DU ac absenoldeb safleoedd yn cael eu rhoi gerbron yn ystod yr Alwad am Safleoedd, ystyrir ei bod hi'n rhesymol peidio â dyrannu safleoedd cloddio am glai yn yr CDLI.
- 6.6.2. Mae'r gallu i wneud brics wedi dirywio yn y DU. Fodd bynnag, ceir galw o'r newydd am frics ac mae gwaith brics newydd yn cael ei ddatblygu yn Lloegr, gyda phwyslais cynyddol ar gludo clai safon uchel ar gyfer defnyddiau arbenigol.

Tywod Silica

- 6.6.3. Tywod Diwydiannol: Silica. Mae dyddodion tywodfaen a chanddynt y potensial am dywod silica a chraig silica'n helaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Ceir tywod silica o Grut Melinfaen wedi'i ddiraddio sydd o burdeb silica uchel. Nid yw'n hysbys ble mae'r graig silica wedi'i diraddio'n digwydd h.y. y deunydd y gellir ei weithio i gynhyrchu tywod silica. Hyd at 2013, cloddiwyd tywod silica o safle yn Sir Ddinbych sydd bellach wedi'i stopio. Mae nifer o orchmynion gwahardd wedi'u cyhoeddi ar gyfer safleoedd mewn mannau eraill yn y rhanbarth. Ni roddwyd safleoedd gerbron i'w cynnwys yn yr CDLI trwy'r Alwad am Safleoedd. Mae gwerthiant tywod diwydiannol yn gymharol fach gyda mwyafrif y gwerthiant yn deillio yn Swydd Gaer. O gofio hyn, ystyrir yn rhesymol peidio â chlustnodi safleoedd ar gyfer cloddio tywod silica yn yr CDLI.

Glo

- 6.6.4. Mae gwerthiant glo a'r galw amdano wedi dirywio'n sylweddol ers dechrau'r ganrif yn sgil cau'r pwll dwfn mawr olaf yn 2015 ar y cyd â dirywiad dwfn yn y galw yn sgil polisi'r llywodraeth a grymoedd y farchnad gan leihau'r defnydd am lo i greu trydan. Ni roddwyd safleoedd gerbron i'w cynnwys yn yr CDLI yn ystod yr Alwad am Safleoedd ac nid oes ceisiadau wedi dod i law i gloddio am lo.
- 6.6.5. O gofio'r dirywiad yn y galw, newidiadau i Bolisi Ynni'r DU ac absenoldeb y galw am safleoedd yn Sir y Fflint, a'r sefyllfa polisi newydd yn PPW10 mewn perthynas â chloddio glo a thanwydd

¹⁰ Annual Minerals Raised Inquiry Survey 2005-2014

ffosil, ystyrir ei bod hi'n rhesymol na wnaed unrhyw ddyraniadau yn y Sir i gloddio am lo. Nid yw parhau i gloddio am danwydd ffosil yn cyfateb i'r targedau gostwng carbon, ac felly Polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi cloddio a defnyddio tanwydd ffosil yn barhaus. Mae PPW10 yn datgan na ddylai'r cynigion am ddatblygiad mwynglawdd dwfn, agored neu ysbail glofa gael eu caniatáu ac eithrio mewn amgylchiadau hollol eithriadol.¹¹

- 6.6.6. Os bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gloddio am lo, bydd angen darparu tystiolaeth rymus a chredadwy bod y cynigion yn cydymffurfio â'r hierarchaeth ynni. Er bod PPW10 yn gryf yn erbyn datblygu ynni mwynau, nid yw'n atal y posibilrwydd o wneud achos eithriadol, ac nid oes dim i atal cais cynllunio rhag cael ei gyflwyno. Os bydd cais yn cael ei gyflwyno, ystyrir bod digon o ddiogelwch a hyblygrwydd yn yr CDLI gyda'r darpariaethau a wnaed ym Mholisiâu PC2 ac EN26 a hefyd PPW10 i allu asesu'r cynigion hynny.

7. Lleihau Effaith Cloddio

7.1. Parthau Clustogi

- 7.1.1. Mae PPW10 yn gosod yr angen i CDLlau leihau'r gwrthdaro rhwng datblygu mwynol a heb fod yn fwynol trwy ddefnyddio parthau clustogi. Mewn perthynas â mwynau agregau, mae MTAN1 yn cynghori'r defnydd o glustogau 100m ar gyfer tywod a graean (a safleoedd eraill lle na chaniateir chwythu) a 200m ar gyfer safleoedd craig wedi'i malu. Ceir nifer o chwareli gweithredol yn Sir y Fflint, fel y manylir yn Nhabl 2 uchod. Aseswyd pob safle ac ystyriwyd yr angen am glustogi. Mae Tabl 6 isod yn esbonio pa glustogau a gynigiwyd a pham.

Tabl 6: Parthau Clustogi Arfaethedig

Enw'r Safle	Mwyn	Clustog	Sylwadau
Aberdo/Bryn Mawr	Calchfaen/ Cornfaen	200m	Safle a ganiateir, gweithredol
Cefn Mawr	Calchfaen	200m	Safle a ganiateir, gweithredol
Grange	Calchfaen	200m	Nid yw'r safle wedi'i weithio ers y 1970au ac nid yw'r perchennog wedi dangos unrhyw fwriad i weithio'r safle. Er bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod Gorchymyn wedi'i gadarnhau.
Hendre	Calchfaen	200m	Safle a ganiateir, gweithredol
Estyniad Chwarel Hendre	Calchfaen	200m	Dyraniad Arfaethedig – estyniad i'r chwarel bresennol

¹¹ PPW10 (paragraff 5.10.14): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Pant	Calchfaen	200m	Nid oes mwyn wedi'i gloddio yn y safle ers nifer o flynyddoedd. Datganwyd materion sefydlogrwydd. Er bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod Gorchymyn wedi'i gadarnhau.
Pant y Pwll Dŵr	Calchfaen	200m	Safle a ganiateir, gweithredol
Estyniad Pant y Pwll Dŵr	Calchfaen	200m	Dyraniad Arfaethedig – estyniad i'r chwarel bresennol
Pen yr Henblas, Pen-y-Garreg a Bryn Blewog	Calchfaen	200m	Nid yw'r safle(oedd) wedi ei/eu gweithio ers 1996. Er bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod Gorchymyn wedi'i gadarnhau
Liverpool Road/Catheralls	Clai/Siâl	100m	Mae'r safle'n anweithredol ac yn destun ROMP segur sy'n gysylltiedig â Chwarel Parry. Rhoddwyd y safle gerbron i'w gynnwys yn yr CDLI ar gyfer tai. Er bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod Gorchymyn wedi'i gadarnhau
Pinfold Lane	Clai/Siâl	100m	Ni chydymffurfiodd y gweithredwr gyda chais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r cais ROMP ac ystyrir ei fod bellach wedi darfod. Er bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod Gorchymyn wedi'i gadarnhau
Stoney Beach	Clai/Siâl	100m	Rhoddwyd caniatâd cynllunio am gyfleuster gwastraff yn y chwarel sy'n destun Adran 106 sy'n atal cloddio mwynau. Er bod y safle'n cael ei ddatblygu at ddefnydd amgen, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar waith.
Ruby	Siâl	100m	Nid yw'r safle wedi'i weithio ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi aildyfu'n naturiol. Er bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad, bydd y glustog yn cael ei chadw hyd nes bod Gorchymyn wedi'i gadarnhau.
Ddol Uchaf	Tywod a Graean	100m	Mae'r safle'n segur ond mae'r gweithredwr wedi datgan eu bod yn bwriadu gweithio'r safle yn y dyfodol agos.
Estyniad Ddol Uchaf	Tywod a Graean	100m	Dyraniad arfaethedig – estyniad i'r chwarel bresennol
Fron Haul	Tywod a Graean	100m	Safle a ganiateir, gweithredol
Sandy Lane Farm, Kinnerton	Tywod a Graean	100m	Safle a ganiateir, gweithredol
Maes Mynan	Tywod a Graean	100m	Safle a ganiateir, gweithredol

7.1.2. Yn unol â gofynion PPW10 ac MTAN 1, dynodwyd clustog o gwmpas y safleoedd uchod ac fe'u dengys ar y mapiau cynigion. Gan nad oes angen chwythu yn unrhyw un o'r safleoedd uchod,

mae clustog o 100m wedi'i defnyddio. Datblygwyd Polisi EN24 i fodloni gofynion PPW10 ac MTAN 1 ac i alluogi unrhyw gynigion sy'n dod gerbron i gael eu hystyried heb gyfaddawdu gweithrediadau chwarelu. Nid yw dynodi clustog yn foratorium ar bob datblygiad ond mae'n gofyn am ddangos na fyddai unrhyw ddatblygiad a fyddai'n digwydd yn y parth clustogi'n rhwystro gweithrediadau chwarelu, naill ai trwy gyflwyno datblygiad sensitif neu trwy sterileiddio'n uniongyrchol ardaloedd a fyddai'n ofynnol i ddatblygu chwarelu.

8. Safleoedd Anweithredol

- 8.1.1. Ceir nifer o safleoedd anweithredol yn y Sir nad ydynt yn cloddio mwynau, fel y manylir yn Nhabl 2. Mae nifer o'r safleoedd hyn wedi'u hadfer neu wedi sicrhau caniatadau cynllunio amgen ac felly ni fyddant yn cael eu hystyried ymhellach. Dyma'r safleoedd sydd heb eu gweithio ers dros 2 flynedd:
- Grange;
 - Pant;
 - Pen yr Henblas;
 - Liverpool Road/Catheralls;
 - Pinfold Lane; a
 - Ruby.
- 8.1.2. Hen chwarel calchfaen yn Pantasaph yw safle'r Grange lle daeth y gwaith cloddio mwynau i ben nifer o flynyddoedd yn ôl. Deallir nad oes unrhyw weithgareddau'n digwydd yn y safle ond mae cronfeydd sylweddol o bosibl yn weddill. Ystyrir bod y safle'n ymgeisydd am waharddiad a bydd hyn yn cael ei ymchwilio ymhellach.
- 8.1.3. Chwarel calchfaen yn Halkyn dan berchnogaeth Tarmac yw Pant. Mae gwaith asffalt yn cael ei weithredu o'r safle ar hyn o bryd ond nid oes mwynau wedi'u gweithio yn y safle, gyda'r taniad olaf yn 2010. Mae cronfeydd cyfyngedig iawn yn weddill yn y safle. Nid yw adferiad yn y safle'n bwrw ymlaen yn amserol, ac mae cwrs gweithredu priodol wrthi'n cael ei ystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae disgwyl i'r adferiad yn y safle gael ei gwblhau erbyn 30 Ebrill 2025 a bydd angen ystyried yr union gam gweithredu'n ofalus gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Er bod y safle'n ymgeisydd potensial am waharddiad, gallai cam gorfodi fod yn ffordd fwy priodol ymlaen yn yr achos hwn, yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau gyda'r gweithredwr.
- 8.1.4. Mae gan Pen yr Henblas, sy'n cynnwys Pen y Garreg a Bryn Blewog, ganiatâd cynllunio i gloddio calchfaen. Mae Cyfeirnod Cais Cynllunio 98/14/1228 yn cynnig na fydd unrhyw weithio'n digwydd ar y safle hyd nes i gynllun gweithio ac adfer gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynol. Mae'r safle bellach yn ffurfio rhan o Gomin Halkyn a SoDdGA

Glaswelltir Treffynnon ac AGA Mynydd Halkyn ac yn cynnal cynefin allweddol ar gyfer ystod o ffawna a fflora gan gynnwys y Fadfall Ddŵr Gribog sy'n Rhywogaeth Warchoddedig Statudol Ewropeaidd. Oherwydd y gwrthdaro rhwng gofynion adfer cynllunio a statws cadwraeth gyfreithiol y tir, nid aed ar drywydd adferiad gweithredol ac mae'r safle'n aildyfu'n naturiol.

- 8.1.5. Safle clai sy'n eiddo i Hanson yw Liverpool Road/Cartheralls ac nid yw erioed wedi'i weithio. Mae'r caniatâd cynllunio'n gysylltiedig â'r caniatâd yn Chwarel Parry sydd dan berchnogaeth wahanol ac sydd wedi arwain at beidio byth a phennu ROMP. Rhoddwyd y safle gerbron ar gyfer tai yn ystod Galwad am Safleoedd yr CDLI.
- 8.1.6. Safle clai dan berchnogaeth Brock Plc yw Pinfold Lane. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio i ailgylchu gwastraff anweithredol mewn rhan o'r safle ac roedd yn destun cais tirlenwi a wrthodwyd ac yna a olyngwyd mewn apêl. Mae'r safle cyfagos, Chwarel Stoney Beach wedi sicrhau caniatâd cynllunio am ystod o ddefnyddiau rheoli gwastraff a defnyddir yr ardal ehangach ar gyfer amryw ddefnyddiau diwydiannol. Yn ystod yr Alwad am Safleoedd, cyflwynodd y tirlfeddiannwr y safle at ddefnyddiau cyflogaeth. Fodd bynnag, ceir darpariaeth ddigonolo dir cyflogaeth felly nid yw wedi'i gynnwys fel dyraniad yn yr CDLI. Fodd bynnag, mae'r safle wedi'i restru ym Mholisi EN21 fel safle mewn egwyddor sy'n addas at ddefnyddiau rheoli gwastraff.
- 8.1.7. Safle siâl yw Ruby Quarry sydd heb ei weithio ers nifer o flynyddoedd ac sydd wedi aildyfu'n naturiol dros amser. Mae caniatâd cynllunio a gyhoeddwyd ym 1996 yn gofyn am gyflwyno nifer o gynlluniau cyn y gall gweithio ddechrau ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol eisoes wedi cytuno i ymestyn cyfnod cyflwyno'r Adolygiad gan nad yw'r safle'n weithredol.
- 8.1.8. Argymhellir adolygu safleoedd yn Sir y Fflint a chaiff datganiad ei gynnwys yng Nghyfiawnhad Polisi EN26 sy'n cadarnhau bod safleoedd sy'n segur neu'n anweithredol yn cael eu hadolygu a gorchmynion gwahardd yn cael eu cyhoeddi lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

9. Annog Defnyddio Deunyddiau Eraill yn lle adnoddau crai

9.1. Cyflwyniad

- 9.1.1. Mae PPW 10 yn nodi y dylid rhoi pwyslais penodol ar gynyddu'r defnydd o gynhyrchion amgen i ddeunyddiau crai lle bo'n briodol. Bydd y defnydd o agregau eilaidd ac wedi'u hailgylchu'n cael eu cefnogi trwy bolisiau DC Cyffredinol a'u hannog ymhellach trwy Bolisi EN27: Agreg Eilradd ac wedi'u Hailgylchu lle bydd cynigion ar gyfer rheoli agregau eilaidd ac wedi'u hailgylchu'n cael eu

cefnogi y tu allan i ffiniau'r anheddiad, ar yr amod eu bod yn bodloni nifer o feini prawf sydd a restrwyd yn y polisi.

10. Awdurdodau Cyfagos

- 10.1.1. Mae Sir y Fflint ar ffin nifer o wahanol awdurdodau gan gynnwys Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir Gaer. Yn ddaearegol, mae yna debygrwydd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam gyda meysydd glo helaeth, tywod a graean, Grut Melinfaen, calchfaen a chlai. Mae Gogledd Cymru'n allforiwr net o agregau gyda Sir y Fflint yn gyflenwr craig wedi'i malu bwysig yn y rhanbarth ac yn Lloegr gerllaw. Mae Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol, gan ystyried gwerthiant dros y 10 mlynedd diwethaf sy'n cynnwys allforion y tu allan i Sir y Fflint a'r rhanbarth.
- 10.1.2. Ystyriwyd y dull a gymerwyd gan awdurdodau eraill: er enghraifft, mae Powys wedi penderfynu diogelu tywod a graean Categori 2 nad yw'n cael ei gynnig yn CDLI Sir y Fflint. Mae ansawdd a dosbarthiad tywod a graean llawer mwy cyfyngedig ym Mhowys o gymharu â Sir y Fflint, gan wneud adnoddau o ansawdd mwy gwael yn bwysicach o gofio maint a natur wledig y Sir.
- 10.1.3. Yn dibynnu ar ganlyniad 2^{il} adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol, hwyrach fod angen cydweithredu gydag awdurdodau cyfagos mewn perthynas â thywod a graean.

11. Monitro

- 11.1.1. Mae angen i CDLlau gynnwys Dangosyddion Craidd yn eu fframwaith monitro. Dynodir y dangosydd canlynol ar gyfer mwynau:

“Mae hyd a lled agregau crai o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technoleg Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'u mynegi fel canran o'r cyfanswm gallu gofynnol fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).”

APPENDIX 1

Flintshire County Council Candidate Sites Minerals Assessment (2015)

1. Purpose of this document

- 1.1. This document comprises a review of the sites contained on the Candidate Sites Register in respect of minerals. Minerals Planning Policy Wales, paragraph 13, requires local authorities to identify areas to be safeguarded on proposals maps and protect potential mineral resources from other types of permanent development which would either sterilise them or hinder extraction. The potential for extraction of minerals resources prior to undertaking other forms of development must also be considered.
- 1.2. The Candidate Sites Register identifies the sites submitted by landowners, developer, and other interested parties as potential development sites for inclusion in the LDP following a call for sites in 2015. The assessments contained in this document only consider the candidate sites in respect of minerals and do not consider any other aspects (such as ecology) which will also need to be considered prior to the Deposit stage of the LDP.

2. Methodology

- 2.1. A methodology has been developed to enable a consistent approach to be taken, however, at this stage of the LDP it would not be appropriate to definitively exclude (or otherwise) sites on the basis of the presence of minerals at this stage because there are many other factors which will affect the suitability of a site and the approach will need to evolve as the list of sites for inclusion within the LDP are finalised.

Data Sources

